Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu**

**Heddlu Dyfed-Powys**

**Adolygiad Craffu Dwys**

**i**

# Ddioddefwyr yn Tynnu'n Ôl

**o fewn Heddlu Dyfed-Powys**

**Rhagfyr 2019**

# Cynnwys

1.0 Crynodeb Gweithredol ....... 3
2.0 Canlyniad ....... 7
3.0 Sefyllfa ....... 8
3.1 Cefndir ....... 8
3.2 Cyd-destun ....... 8
3.2.1 Cyd-destun Cenedlaethol ....... 8
3.2.2 Cyd-destun Dyfed-Powys ....... 9
3.3 Polisi a Chanllawiau ....... 10
3.4 Data Dyfed-Powys ....... 11
3.4.1 Cyfran y troseddau gyda Chanlyniad 14 neu 16 wedi'i ddefnyddio ....... 12
3.4.2 Ymarferiad Craffu'r Panel Sicrhau Ansawdd ....... 13
3.5 Gwasanaethau Cymorth ....... 14
3.6 Adborth gan Ddioddefwyr ....... 17
3.7 Digwyddiadau Gwelliant Parhaus ....... 19
3.8 Adroddiadau ac adolygiadau blaenorol o fewn Dyfed-Powys ....... 21
3.8.1 Mewnwelediadau gan Ddioddefwyr ....... 21
3.8.2 Adolygiad o Ganlyniad 16 ....... 22
3.8.3 Adolygiad o Ganlyniad 16 ....... 24
3.8.4 Adolygiad o Drais Rhywiol a Throseddau Rhyw Difrifol ....... 24
3.8.5 Adolygiad o Ganlyniad 16 ....... 25
3.8.6 Adolygiad o Droseddau Rhyw ....... 26
3.9 Adolygiadau Cenedlaethol ....... 28
3.9.1 Adolygiad o Drais Rhywiol yn Llundain ....... 28
3.10 Adolygiadau o Ddynladdiad Domestig ....... 29
4.0 Canlyniadau ....... 30
5.0 Camau Gweithredu ....... 33
6.0 Adolygiad ....... 33
6.1 Amcanion ....... 34
6.2 Casgliad ....... 34
Atodiad A – Cyd-destun ychwanegol ar gyfer y cynnydd mewn cofnodi troseddau.... ....... 37
Atodiad B – Polisi Canlyniadau Troseddau ....... 38

Atodiad C – Argymhellion a materion sy’n deillio o adolygiadau sy’n bodoli eisoes. ... 40

# 1.0 Crynodeb Gweithredol

Yng ngoleuni cyfrifoldeb y Comisiynydd Heddlu a Throseddu (CHTh) i weithredu fel llais y dioddefwr ac i graffu ar effeithiolrwydd Heddlu Dyfed-Powys (y ‘Llu’), y cynnydd ymddangosiadol yn y defnydd o Ganlyniadau 14 ac 16 ar gyfer troseddau domestig a rhywiol, ac achosion unigol a amlygwyd i’r CHTh, ymgymerodd Swyddfa’r Comisiynydd Heddlu a Throseddu (SCHTh) ag adolygiad craffu dwys ar ddioddefwyr yn tynnu’n ôl a’r defnydd o Ganlyniadau 14 a 16 yn benodol o fewn Heddlu Dyfed-Powys. Yn ôl yr adolygiad:

Mae’n amlwg bod dioddefwyr yn flaenoriaeth i’r Prif Gwnstabl ac i Heddlu Dyfed-Powys yn ei gyfanrwydd gyda rhai enghreifftiau da, fel yr amlinellwyd gan y Panel Sicrhau Ansawdd, o swyddogion yn rhoi amser sylweddol i ymchwilio i ddigwyddiadau. Roedd hefyd enghreifftiau da o empathi yn cael eu dangos tuag at ddioddefwyr. Fodd bynnag, mae’r adolygiad yn argymell nifer o feysydd lle y gellid gwneud gwelliannau er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth gorau posibl yn cael ei ddarparu i ddioddefwyr ac i sicrhau bod y dioddefwyr yn wirioneddol ganolog i’r Llu.

Mae materion yn ymwneud ag eglurder polisi’r Llu a chysondeb a chywirdeb y defnydd o Ganlyniadau yn codi amheuon ynghylch dibynadwyedd y data a ddarperir. Gan fod hyn yn sail i nifer o weithgareddau cynllunio o fewn strwythur llywodraethu’r Llu, mae pryder gwirioneddol y gallai fod diffyg gwybodaeth ar gyfer argymhellion a chamau gweithredu. Roedd hyn hefyd yn amlwg yn y canfyddiadau o’r ymarfer craffu a gynhaliwyd gan y Panel Sicrhau Ansawdd, sy’n amlygu peth dryswch gan swyddogion ynghylch y defnydd priodol o Ganlyniadau.

Mae’r trefniadau presennol lle mae Canlyniadau penodol yn cael eu defnyddio gan swyddogion ar y System Rheoli Troseddau (CMS) ond ar waith oherwydd diffyg adnoddau ac nid yw swyddogion wedi derbyn unrhyw hyfforddiant i ymgymryd â’r rôl hon. Nid yw’r trefniant yn darparu unrhyw sicrwydd ansawdd, ac nid oes adnoddau ar gael i gyflawni swyddogaethau archwilio neu graffu. Mae’r adroddiad hwn yn argymell y dylai cwmpas y gwaith galw cyfredol o fewn y Llu gynnwys adolygiad o’r modd y defnyddir Canlyniadau, gan roi ystyriaeth i adnodd canolog er mwyn gweithredu a sicrhau ansawdd Canlyniadau troseddau. Byddai hyn yn sicrhau bod y Llu’n defnyddio arfer gyson sy’n cyd-fynd â pholisi cenedlaethol, yn negyddu’r angen am hyfforddiant swyddogion, yn darparu rhesymeg glir ar gyfer pob achos ac yn caniatáu hyder yn y data dilynol a gynhyrchir.

Mae’n anodd sicrhau eglurder ynghylch y data perfformiad sy’n ymwneud â dioddefwyr yn tynnu’n ôl. Mae llawer o’r data’n gwrthddweud ei gilydd neu’n dibynnu ar gymaint o gafeatau fel ei fod yn profi’n annibynadwy. Nid yw adroddiadau a ddarparwyd dros amser yn cydgrynhoi nac yn arddangos y data mewn modd cyson. Mae gwneud cymariaethau dros amser, felly, yn heriol ac yn ddiystyr braidd. Gall ystyried ffigurau troseddu yn unig ystumio ein dealltwriaeth o ymddygiad dioddefwyr a’r gwasanaeth a ddarperir iddynt. Efallai y bydd y Llu, felly, yn dymuno ystyried dull sy’n canolbwyntio’n wirioneddol ar y dioddefwr drwy ganolbwyntio ar ddata sy’n seiliedig ar y dioddefwr, yn hytrach na throseddau sydd wedi’u cofnodi. Dylai’r Llu ddarparu eglurder ar y data a gynhyrchir a’i effeithiolrwydd, a dylai sicrhau bod y rhesymau dros dueddiadau perfformiad ac amrywiad posibl o’r cyfartaleddau cenedlaethol yn cael eu deall a’u dogfennu’n llawn.

Ceir cymhlethdodau pellach o ran y trefniadau rhannu data sy’n cyd-fynd â’r wybodaeth hon, sy’n golygu bod craffu gan SCHTh yn arbennig o heriol ac nid yw’n caniatáu tryloywder o ran dangos perfformiad y Llu. Mae angen mynd i’r afael â hyn fel mater o frys.

Mae’r Llu wedi cydnabod effaith ymchwiliadau hirfaith ar y broses o ymgysylltu â dioddefwyr, ac mae wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran lleihau nifer yr ymchwiliadau sydd ar agor am fwy na 12 mis. Mae angen gwneud rhagor o waith i gynnal safonau ymchwilio, nid yn unig o ran faint o amser a gymerir, ond hefyd o ran sicrhau y dilynir yr holl arferion gweithdrefnol gorau a bod y dystiolaeth briodol yn cael ei chasglu.

Mae dioddefwyr yn ymgysylltu’n dda â gwasanaethau cymorth arbenigol. Pan fydd dioddefwyr yn tynnu’n ôl, mae hynny yn bennaf oherwydd rhesymau personol yn hytrach nag oherwydd unrhyw weithgaredd neu segurdod gan yr heddlu. Ategir hyn gan y data boddhad dioddefwyr, sy’n dangos nad yw’r math o Ganlyniad yn dylanwadu ar y lefel o foddhad a deimlir gan y dioddefwr o ran ei brofiad cyffredinol o’r heddlu. Yn wir, mae dioddefwyr sy’n tynnu’n ôl yr un mor fodlon, os nad mwy felly, â’u profiad â’r rhai sy’n derbyn Canlyniadau eraill. Os yw dioddefwyr yn ganolog i’r ddarpariaeth gwasanaethau a’u bod yn dweud wrthym eu bod yn hapus â’u profiad, siawns nad yw hyn yn ddigon o gyfiawnhad dros unrhyw wahaniaeth i’r cyfartaledd cenedlaethol o ran y defnydd o Ganlyniadau.

Mae’r adolygiad yn arddangos rhai tueddiadau diddorol o ran pa asiantaeth sy’n cynnig cymorth, gyda dioddefwyr cam-drin domestig yn enwedig yn manteisio lawer llai ar wasanaethau cyffredinol i ddioddefwyr o’u cymharu ag asiantaethau cymorth arbenigol. Dylai’r Llu ddefnyddio’r data hyn i sicrhau bod y llwybr cymorth gorau ar gael i ddioddefwyr yn ystod eu taith cyfiawnder troseddol.

Cafodd diffyg ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau cymorth a gynigir ei nodi dro ar ôl tro yn yr adolygiad hwn. Heb hyn, ni allwn fod yn sicr bod swyddogion yn gwneud cynigion cywir a gwybodus am wasanaeth i ddioddefwyr. Mae un o'r bylchau mwyaf sylweddol yn ymwneud ag iechyd meddwl, a amlygir fel ffactor arwyddocaol yn bron i bob achos o ddioddefwr yn tynnu'n ôl o'r ymchwiliad. Mae yna nifer o wasanaethau'n bodoli i gefnogi dioddefwyr yn y maes hwn; mae angen i'r Llu sicrhau bod swyddogion a gwasanaethau dioddefwyr yn cyfeirio dioddefwyr at y gefnogaeth briodol er mwyn sicrhau nad yw materion iechyd meddwl yn cael effaith negyddol ar ddatblygiad eu taith cyfiawnder troseddol.

Mae nifer o adolygiadau a digwyddiadau eisoes wedi'u cynnal o fewn y Llu mewn ymgais i ddeall y gwahanol faterion sy'n sail i ddioddefwyr yn tynnu'n ôl. Bydd gan y rhain oblygiadau sylweddol o ran adnoddau, boed hynny o ran y cyllid go iawn ar gyfer astudiaethau annibynnol neu'r amser a dreuliwyd gan staff ar gyfer cynnal adolygiadau mewnol. Mae rhai tueddiadau allweddol a ddaw i'r amlwg dros gronoleg yr argymhellion, gyda nifer o adolygiadau'n nodi'r un meysydd i'w gwella ar wahanol adegau. Mae Atodiad C yn cynnwys rhestr lawn o'r cyhoeddiadau ynghyd â'r materion a'r argymhellion a nodwyd; mae'r rhain yn hirfaith. Dyrennir camau gweithredu i amrywiaeth o grwpiau, gan gynnwys y Bwrdd Dioddefwyr neu'r Grŵp Aur Cam-drin Domestig. Maent hefyd yn ymddangos mewn cynlluniau gweithredu gweithredol. Fodd bynnag, nid yw'r rhain yn trosi'n flaenoriaethau gwybodus ar draws cynlluniau gwaith adrannol ar lefel strategol: nid oes unrhyw lywodraethu canolog, dim system lle caiff y gwahanol berchnogion gweithredu eu dwyn i gyfrif, a dim goruchwyliaeth strategol i lywio'r gwaith o wella gwasanaethau.

Ymhlith y materion sy'n codi o ddigwyddiadau gwelliant parhaus mae diffyg ymwybyddiaeth o wasanaethau cymorth, dyblygiad cyswllt â dioddefwyr, dryswch ynghylch rolau a chyfrifoldebau, a diffyg cydgysylltu canolog ar gyfer adborth gan ddioddefwyr. Mae'r rhain yn cyd-fynd ag argymhellion o adolygiadau amrywiol, gan gynnwys yr angen am ymyrraeth arbenigol cyn gynted â phosibl, pryderon ynghylch diweddariadau i ddioddefwyr, diffyg eglurder mewn dogfennau polisi a chanllawiau, a diffyg sicrwydd ansawdd neu hyder o ran y defnydd o Ganlyniadau. Mae'r materion hyn yn eu tro yn arwain at system anghydlynol a darpariaeth wael o wasanaethau i ddioddefwyr.

Er mwyn rhoi dioddefwyr wrth wraidd darpariaeth gwasanaethau, mae'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu'n argymell y dylai'r Llu:

1. Ystyried adnodd canolog ar gyfer gweithredu a sicrhau ansawdd Canlyniadau troseddol er mwyn gweithredu arfer gyson sydd wedi'i halinio â pholisi cenedlaethol.
2. Darparu eglurder ynghylch y data a gynhyrchir a sut y gellir ei defnyddio, yn enwedig sut y gellir ei rhannu â SCHTh a chynulleidfaoedd ehangach.

3. Parhau â'r gwaith i leihau ymchwiliadau hirfaith a allai effeithio ar y broses o ymgysylltu â dioddefwyr.
4. Archwilio'n rheolaidd y gydymffurfiaeth â gweithdrefnau ymchwilio sy'n debygol o effeithio ar y broses o ymgysylltu â dioddefwyr, gan gynnwys cyfweliadau wedi'u recordio ar fideo, camerâu fideo a wisgir ar y corff a theledu cylch cyfyng y mae'r CHTh wedi buddsoddi ynddynt ledled rhanbarth y Llu.
5. Sicrhau bod y llwybr cymorth i ddioddefwyr yn glir, gyda chydsyniad wedi'i sicrhau ar y pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer pob atgyfeiriad yn y dyfodol. O fewn hyn, bydd angen:
    a. Sicrhau bod cyfeirlyfr dioddefwyr yn cael ei gynnal ac yn cynnwys gwybodaeth gyfredol i gyfeirio dioddefwyr at asiantaethau sy'n darparu cymorth iechyd meddwl ac eiriolaeth o fewn ein cymunedau
    b. Gwell ymwybyddiaeth i ddioddefwyr, troseddwyr a swyddogion o'r gwasanaethau cymorth sydd ar gael
6. Mynd ati'n weithredol i chwilio am adborth gan y dioddefwyr hynny sydd wedi tynnu'n ôl o ymchwiliadau er mwyn hysbysu'r broses o ddarparu gwasanaethau
7. Adolygu'r holl argymhellion a chamau gweithredu sy'n deillio o'r gwaith presennol o ymgysylltu â dioddefwyr, a darparu diweddariadau'n unol â hynny
8. Sicrhau bod Gwelliant Parhaus o fewn y Llu yn cael ei yrru'n strategol er mwyn cefnogi'r strategaeth reoli a'r Cynllun Heddlu a Throseddu. Dylai hyn gynnwys cronfa ganolog o wybodaeth er mwyn nodi tueddiadau a hysbysu'r broses o ddarparu gwasanaethau, ynghyd â chanllawiau clir ynghylch cyfrifoldeb ac atebolrwydd ar gyfer argymhellion a ddaw i'r amlwg
9. Sicrhau trosolwg strategol clir o faterion sy'n ymwneud â'r broses o ymgysylltu â dioddefwyr, gan wthio'r gwaith trawsadrannol sydd ei angen er mwyn rhoi dioddefwyr wrth wraidd y broses o ddarparu gwasanaethau, yn ei flaen
10. Darparu cynrychiolaeth uwch yn gyson ar baneli Adolygu Dynladdiad Domestig ar lefel leol, a sicrhau bod y camau gweithredu sy'n deillio ohonynt yn cael eu hymgorffori yn y strwythur llywodraethu a chraffu priodol.

# 2.0 Canlyniad

Mae'r adolygiad hwn yn cyfrannu at y Cynllun Heddlu a Throseddu[1], drwy gefnogi'r blaenoriaethau canlynol:

- Gwella hyder y cyhoedd yn Heddlu Dyfed-Powys (Blaenoriaeth 1 - Cadw ein cymunedau'n ddiogel)
- Adnabod y rhai sydd mewn perygl o gael eu cam-drin neu eu cam-drin yr eilwaith… drwy rannu gwybodaeth yn well rhwng asiantaethau (Blaenoriaeth 2 – Diogelu pobl Fregus)
- Comisiynu gwasanaethau cymorth i ddioddefwyr sy'n cynnig cymorth emosiynol ac ymarferol i ddioddefwyr cam-drin domestig a rhywiol er mwyn eu helpu i ymdopi a gwella ar ôl eu profiad, yn ogystal â'u cefnogi i sicrhau'r canlyniad gorau posibl drwy'r system cyfiawnder troseddol (Blaenoriaeth 2 – Diogelu pobl Fregus)
- Cefnogi dioddefwyr y troseddau mwyaf difrifol i ddygymod â'u profiad ac i wella ar ei ôl (Blaenoriaeth 3 - Diogelu ein cymunedau rhag bygythiadau difrifol)
- Sicrhau bod y cyhoedd yn cael gwasanaeth hygyrch ac ymatebol (Blaenoriaeth 4 - Ymgysylltu â chymunedau)

Nod yr adolygiad oedd nodi:

1. A yw defnydd y Llu o Ganlyniadau 14 ac 16 ar gyfer troseddau domestig a rhywiol yn unol â thueddiadau cenedlaethol, ac a yw'r sail resymegol dros unrhyw wyriadau o ran perfformiad wedi'u deall a'u derbyn
2. A yw'r defnydd o'r Canlyniadau uchod yn nodi unrhyw faterion o ran ymarfer y Llu neu'r daith cyfiawnder troseddol yn ehangach
3. A yw'r Llu'n manteisio ar bob cyfle i sicrhau erlyniadau amserol ac effeithiol
4. Effeithiolrwydd y Llu wrth gadw ymgysylltiad dioddefwyr ar gyfer ymchwiliadau
5. I ba raddau y caiff argymhellion o adolygiadau a gomisiynir o fewn y Llu eu monitro a'u llywodraethu
6. I ba raddau y mae canlyniadau gwelliant parhaus yn llywio gwelliant o ran darparu gwasanaethau

Drwy:

1. Nodi polisi presennol y Llu ar gyfer defnyddio Canlyniadau 14 ac 16
2. Nodi'r tueddiadau mewn perfformiad o ran y defnydd o Ganlyniadau, yn lleol ac yn genedlaethol
3. Cynnal adolygiad llenyddiaeth o adroddiadau presennol a digwyddiadau gwelliant parhaus a'r graddau y gweithredwyd ar yr argymhellion
4. Cyflwyno barn dioddefwyr ac effeithiolrwydd y Llu wrth fynd i'r afael â hi

[1] http://www.dyfedpowys-pcc.org.uk/en/the-commissioner/the-police-and-crime-plan/

5. Tynnu sylw at feysydd o arfer dda ac unrhyw feysydd lle y gellid gwneud gwelliannau.

# 3.0 Sefyllfa

## 3.1 Cefndir

Ysgogwyd yr adolygiad hwn gan nifer o ffactorau, sef:

- Mae gan y CHTh ddyletswydd statudol i weithredu fel llais dioddefwyr
- Yn ddiweddar, mae'r CHTh wedi cyfarfod â dioddefwyr cam-drin domestig, trais rhywiol a stelcian unigol, a chodwyd pryderon ynghylch eu profiad o'r system cyfiawnder troseddol.
- Mae'r CHTh yn comisiynu gwasanaethau cymorth cyffredinol ac arbenigol er mwyn sicrhau bod dioddefwyr yn cael y cymorth priodol ar y pwynt y cyflawnwyd y drosedd a thrwy gydol eu taith cyfiawnder troseddol.
- Mae blaenoriaethau'r Prif Gwnstabl a gyhoeddwyd ar ddechrau 2018 yn cynnwys "gwella boddhad a hyder dioddefwyr mewn Plismona" a "chefnogi a diogelu'r rhai mwyaf bregus yn ein cymunedau"
- Nododd Heddlu Dyfed-Powys yn ei Fwrdd Perfformiad a Chanlyniadau ym mis Gorffennaf 2019 bryder ynghylch y gyfran uchel o'r defnydd o Ganlyniadau 14/16 mewn troseddau domestig a rhywiol.
- Mae Heddlu Dyfed-Powys wedi comisiynu nifer o adolygiadau'n fewnol dros y blynyddoedd diwethaf er mwyn deall sut y defnyddir Canlyniadau penodol, ond nid ydynt wedi rhoi eglurhad terfynol hyd yn hyn
- Mae Heddlu Dyfed-Powys wedi buddsoddi mewn adolygiad cam-drin domestig, gan arwain at nifer o ddatblygiadau allweddol o fewn strategaethau gweithredol y Llu sy'n anelu at ddarparu gwell wasanaeth i ddioddefwyr cam-drin domestig a rhywiol
- Mae cyflwyno'r Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) (Cymru) 2015 wedi sicrhau bod y meysydd cam-drin domestig a rhywiol yn derbyn mwy o graffu gan y llywodraeth.

## 3.2 Cyd-destun

### 3.2.1 Cyd-destun Cenedlaethol

Cyflwynwyd y Safonau Cofnodi Troseddau Cenedlaethol yn 2002, gyda'r nod o sicrhau cysondeb rhwng y gwahanol heddluoedd a sicrhau dull sy'n canolbwyntio mwy ar y dioddefwr.

Yn 2014, cyhoeddodd Arolygiaeth Heddluoedd a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi (AHGTAEM) yr adroddiad 'Crime-recording: making the victim count'[2] a oedd yn holi'r cwestiwn "i ba raddau y gellir ymddiried yn y wybodaeth am droseddau a gofnodir gan yr heddlu?" Roedd hyn yn dilyn arolygiad a gomisiynwyd gan Gomisiynydd Heddlu a Throseddu Caint, a ganfu fod angen gwneud mwy cyn y gallai'r cyhoedd fod yn hyderus bod y ffigurau troseddu a gyhoeddwyd gan yr heddlu mor gywir ag y dylent fod. Arweiniodd hyn at ddechrau Arolygiadau Uniondeb Data Troseddau'r AHGTAEM.

Ym mis Hydref 2019[3], cafodd y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu eu diweddaru gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder ynghylch y camau sy'n cael eu cymryd yn genedlaethol i gefnogi dioddefwyr trais rhywiol. Roedd hyn yn cynnwys gwaith ar draws y llywodraeth ac asiantaethau allanol i nodi meysydd o flaenoriaeth. Mae'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cenedlaethol wedi clustnodi ymgysylltu effeithiol rhwng y system a dioddefwyr/tystion fel un o'r meysydd cyntaf y bydd yn canolbwyntio arno. Daw hyn yn dilyn cynnydd ar lefel genedlaethol yn y defnydd o Ganlyniad 'anawsterau tystiolaethol, yr un dan amheuaeth wedi'i adnabod – nid yw'r dioddefwr yn cefnogi erlyniad'. Ar hyn o bryd, mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn datblygu cynllun tystiolaeth ar gyfer prosiect craffu manwl posibl ar y broses o ymgysylltu â dioddefwyr a thystion. Bydd yn ystyried y cwestiwn cyffredinol "Sut allwn ni wella profiadau'r dioddefwyr a'r tystion o'r system cyfiawnder troseddol fel eu bod yn teimlo'n fwy abl i fwrw ymlaen â'u hachos?"

Mae'r CHTh wedi darparu adborth dechreuol i Gymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu ynghylch canfyddiadau ac argymhellion yr adroddiad Dyfed-Powys hwn a bydd yn cadw golwg ar ddatblygiadau'r gwaith cenedlaethol er mwyn i unrhyw arfer orau sy'n dod i'r amlwg gael ei hystyried.

### 3.2.2 Cyd-destun Dyfed-Powys

Mae galwadau i Heddlu Dyfed-Powys am wasanaeth wedi aros yn gymharol sefydlog dros y blynyddoedd diwethaf, gydag ychydig iawn o amrywio yn y niferoedd blynyddol. Fodd bynnag, ymddengys fod newidiadau mewn prosesau gweinyddol ac arferion cofnodi wedi cael effaith ar nifer y troseddau sy'n cael eu cofnodi. Nodir rhai o'r rhain yn Atodiad A.

Cyn Ebrill 2013, roedd ystadegau swyddogol ynghylch troseddau yn canolbwyntio ar ddatrysiadau. O Ebrill 2013, cyflwynodd y Swyddfa Gartref y Fframwaith Canlyniadau newydd ac o Ebrill 2014 mae heddluoedd wedi cyflwyno data i'r

[2] Crime-recording: making the victim count. The final report of an inspection of crime data integrity in police forces in England and Wales. Tachwedd 2014 HMIC

[3] Llythyr i'r CHTh, dyddiedig 23 Hydref 2019 gan Victoria Atkins AS, y Gweinidog dros Ddiogelu a Bregusrwydd a'r Gweinidog dros Fenywod; a Wendy Morton AS, yr Is-Ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Gyfiawnder

Swyddfa Gartref ar set o 21 o Ganlyniadau y gellir eu defnyddio ar gyfer troseddau ar ôl eu hymchwilio.

Roedd arolygiad Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi (AHGTAEM) o Ddyfed-Powys yn 2014 yn cynnwys ffocws ar Ganlyniadau a ddefnyddiwyd ar gyfer gwarediadau y tu allan i'r llys. Ni chafodd Canlyniadau eu cynnwys yn y rownd ddiweddaraf o Arolygiadau Uniondeb Data Troseddu. Fodd bynnag, mae'n debygol y byddant yn ymddangos yn y rownd nesaf o arolygiadau. Dylid nodi bod yr arolygiad AHGTAEM diweddaraf, a ystyriodd Ganlyniadau archwiliad y Safonau Cenedlaethol ar gyfer Cofnodi Troseddau (NCRS), wedi nodi bod angen gwelliant gan y Llu o ran uniondeb data.

Yn hanesyddol, ni fu digon o gapasiti o fewn y Tîm Archwilio Troseddau i gynnal unrhyw archwiliadau o'r defnydd o Ganlyniadau. Fel mesur dros dro, mae Canlyniadau wedi cael eu cynnwys yn yr archwiliadau misol sy'n canolbwyntio ar droseddau NCRS, trais rhywiol a domestig.

Mae'r Llu'n cydnabod bod rhywfaint o waith i'w wneud mewn perthynas â chywirdeb y Canlyniadau a ddefnyddiwyd. Mewn heddluoedd eraill yng Nghymru, mae uned ganolog yn bodoli ar gyfer sicrhau ansawdd troseddau a chymhwyso Canlyniadau. Penderfynwyd yn Nyfed-Powys, oherwydd diffyg adnoddau, y byddai swyddogion yn cymhwyso'u Canlyniadau eu hunain. Mae swyddogion yn cymhwyso rhai Canlyniadau, gyda 14 ac 16 ymhlith y rhain, drwy'r System Rheoli Troseddau, ond ni ddarparwyd unrhyw hyfforddiant i swyddogion i gefnogi'r penderfyniad hwn. Mae Cofrestrydd Troseddau'r Llu wedi cyflwyno cais blaenoriaethu hyfforddiant am gynnwys Canlyniadau ar y rhaglen hyfforddi. Mae hyn hefyd wedi ymddangos fel argymhelliad yn dilyn nifer o adolygiadau, fel y manylir yng ngweddill yr adroddiad hwn.

## 3.3 Polisi a Chanllawiau

Yng nghyfarfod mis Hydref 2019 o'r Grŵp Defnyddwyr Cofnodi Troseddau Strategol, cytunwyd bod cymhwysiad Canlyniadau'n anghyson o fewn Heddlu Dyfed-Powys. Nodwyd y dylai'r Cofrestrydd Trosedd a Digwyddiadau'r Llu ail-gylchredeg y polisi Canlyniadau i Ringylliaid ar draws y Llu.

Mae Atodiad B yn cynnwys darn o'r *ddogfen ganllawiau Canlyniadau Troseddau* Dyfed-Powys *a ddiweddarwyd ym mis Ebrill 2019*, ynghyd â diffiniadau o fframwaith Canlyniadau'r Swyddfa Gartref, offer dadansoddi perfformiad IQuanta a Qlkivew. Mae canllawiau'r Llu nid yn unig yn anghyson ynddo'i hunain, ond hefyd yn anghyson o'i gymharu â'r diffiniadau a ddefnyddir mewn dogfennau eraill gan y Swyddfa Gartref.

Er yn gynnil, mae’r gwahaniaethau hyn mewn diffiniadau yn codi cwestiwn ynglŷn â dibynadwyedd y defnydd o’r Canlyniadau yn Nyfed-Powys. Argymhellir y dylid adolygu canllawiau mewnol y Llu er mwyn sicrhau eu bod yn rhoi eglurder llwyr i swyddogion o ran y defnydd o Ganlyniadau. Dylid hefyd sicrhau eu bod, ar ben hynny, yn cyd-fynd â’r diffiniadau a ddefnyddir mewn cyhoeddiadau perfformiad mewnol a chenedlaethol.

Ceir enghreifftiau hefyd lle nad yw data a gafwyd o’r System Rheoli Troseddau yn cefnogi Polisi; er enghraifft, mae’r canfyddiadau’r ymarferiad craffu a gynhaliwyd gan y Panel Sicrhau Ansawdd (gweler adran 3.4.3) yn amlygu peth dryswch ymhlith swyddogion ynglŷn â’r defnydd priodol o Ganlyniadau.

## 3.4 Data Dyfed-Powys

Yr hyn sydd wedi dod i’r amlwg drwy’r ymchwil a wnaed ar gyfer llunio’r adroddiad hwn, yw ei bod yn anodd iawn dod o hyd i’r un ffynhonnell o wirionedd. Mae llawer o’r data yn anghyson o ran eu natur neu’n dibynnu ar gynifer o gafeatau fel eu bod yn annibynadwy fel ffynonellau i seilio camau gweithredu ac argymhellion arnynt. Nid yw adroddiadau a ddarparwyd dros amser o reidrwydd yn cydgrynhoi nac yn arddangos y data mewn modd cyson ac felly mae gwneud cymariaethau dros amser yn heriol ac yn ddiystyr braidd. Ceir cymhlethdodau pellach o ran y data a geir gan y Llu o’r system IQuanta a’r trefniadau rhannu data sy’n cyd-fynd â’r wybodaeth hon.

Yn ogystal â hyn, mae nifer o faterion cyd-destunol sy’n rhaid eu deall wrth ystyried y data. Mae’r rhain yn cynnwys cynnydd sylweddol mewn adrodd gan drydydd parti, sy’n ei gwneud hi’n anodd ymgysylltu â dioddefwr yn yr ymchwiliad o’r dechrau. Felly, gallai ystyried ffigurau troseddu yn unig gamliwio ein dealltwriaeth o ymddygiad dioddefwyr a’r gwasanaeth a ddarperir ar eu cyfer. Mae data perfformiad cyfredol yn canolbwyntio ar nifer y troseddau a gofnodir, sydd ddim yr un fath â’r nifer o ddioddefwyr. Efallai y bydd y Llu am ystyried dull sy’n canolbwyntio’n wirioneddol ar y dioddefwr drwy ganolbwyntio ar ddata sy’n seiliedig ar y dioddefwr.

Bydd angen i’r Llu roi ystyriaeth bellach i’r maes hwn er mwyn darparu rhywfaint o eglurder ar y data a gynhyrchir a’u heffeithiolrwydd. Mae angen i’r Llu fod yn sicr fod y rhesymau y tu ôl i’r gwyriad o’r cyfartaleddau cenedlaethol a thueddiadau mewn perfformiad yn cael eu deall a’u dogfennu’n llawn. At hynny, mae angen mynd i’r afael â’r mater sy’n ymwneud â rhannu data â SCHTh a chynulleidfaoedd ehangach fel mater o frys, er mwyn caniatáu tryloywder wrth gyflwyno adroddiadau a chraffu ar berfformiad y Llu.

### 3.4.1 Cyfran y troseddau gyda Chanlyniad 14 neu 16 wedi'i ddefnyddio

Cyflwynir data ar gyfran y troseddau gyda Chanlyniadau amrywiol wedi'u defnyddio, yn yr adroddiadau Mewnwelediadau sy'n Dibynnu ar Ddata a ddarperir gan y Tîm Perfformiad a Llywodraethu. Fodd bynnag, fel yr amlinellwyd uchod, mae rhai pryderon ynghylch y data a gafwyd gan IQuanta ac i ba raddau y gellir rhannu hyn yn ehangach. Felly, daw'r data isod o dablau data agored troseddau cofnodedig a Chanlyniadau'r heddlu a ddarperir gan y Swyddfa Gartref[4].

Mae'r tabl yn cynnwys ffigurau sy'n dangos cyfran y troseddau gyda Chanlyniadau 14 ac 16 wedi'u defnyddio, ar gyfer sawl math o drosedd. Mae'r rhain yn cynnwys cyfanswm y troseddau, troseddau Trais a throseddau rhyw eraill. Nid yw'r data cenedlaethol sydd ar gael yn cynnwys unrhyw ddadansoddiad o droseddau domestig, ac felly mae'r tabl isod yn cynnwys yr is gategori trais gydag anaf, troseddau Trais yn Erbyn y Person, fel modd o ddarparu rhyw fath o fesur procsi.

Mae'r data'n nodi'n glir duedd gynyddol yn y defnydd o Ganlyniadau 14 ac 16 ar draws y cyfanswm o droseddau yn Nyfed-Powys. Mae'r gyfran hefyd yn sylweddol uwch na'r ffigur cenedlaethol. Mae hyn yn cyd-fynd â'r data a ddarperir o fewn adroddiadau Mewnwelediadau sy'n Dibynnu ar Ddata, er nad yw'r adroddiadau'n cynnwys unrhyw naratif i esbonio'r amrywiad hwn.

O ran troseddau rhyw yn benodol, mae Dyfed-Powys, ar y cyfan, yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Fodd bynnag, dengys troseddau Trais a throseddau rhyw eraill ostyngiad bach dros amser yn y gyfran o Ganlyniadau 14 ac 16 a ddefnyddiwyd.

[4] Tablau data agored troseddau cofnodedig a Chanlyniadau'r heddlu. Cyhoeddwyd ar 25 Ebrill 2013. Diweddarwyd ar 17 Hydref 2019. https://www.gov.uk/government/statistics/police-recorded-crime-open-data-tables

| Maes | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | Q1 19/20 |
|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm y troseddau a gofnodwyd fel Canlyniad 14 ac 16 | | | | |
| Dyfed-Powys | 22.34% | 27.07% | 30.69% | 33.66% |
| Cenedlaethol | 17.6% | 21.01% | 23.35% | 21.18% |
| Troseddau rhyw: Eraill | | | | |
| Dyfed-Powys | 30.14% | 34.51% | 27.77% | 27.73% |
| Cenedlaethol | 26.23% | 28.84% | 28.70% | 21.98% |
| Troseddau rhyw: Trais rhywiol | | | | |
| Dyfed-Powys | 56.25% | 44.38% | 47.17% | 38.28% |
| Cenedlaethol | 42.19% | 45.94% | 43.62% | 29.01% |
| Trais yn Erbyn y Person (trais gydag anaf) | | | | |
| Dyfed-Powys | 39.26% | 39.98% | 41.09% | 39.23% |
| Cenedlaethol | 34.33% | 38.54% | 40.24% | 35.82% |

*Ffigur 1: Troseddau gyda Chanlyniad 14 ac 16 wedi'u defnyddio. Cafwyd y data hyn o dablau data agored troseddau cofnodedig a Chanlyniadau'r heddlu, a ddiweddarwyd ar 17 Hydref 2019*

### 3.4.2 Ymarferiad Craffu'r Panel Sicrhau Ansawdd

Mae Panel Sicrhau Ansawdd y Comisiynydd (sy'n cynnwys preswylwyr annibynnol) yn adolygu troseddau a digwyddiadau'n rheolaidd. Ym mis Hydref 2019, ystyriodd y Panel Sicrhau Ansawdd ddetholiad o 14 achos domestig er mwyn adolygu sut y cyfathrebwyd â dioddefwyr, a sut y'u cefnogwyd yn ystod eu hachos. Gweler y prif adborth isod.

Roedd aelodau o'r farn y gallai fod rhywfaint o ddryswch ynglŷn â'r defnydd priodol o Ganlyniadau - a allai fod angen eglurhad yn fewnol. Fodd bynnag, nid oeddynt o'r farn bod hyn yn amharu ar y cymorth a ddarperir i ddioddefwyr. Wedi' i'r Canlyniad gael ei ddefnyddio, roedd y Panel o'r farn bod gwaith craffu mewnol yr Heddlu o'r defnydd o Ganlyniadau, drwy oruchwylwyr, yn dda iawn o fewn y 14 achos a adolygwyd.

Teimlid bod dioddefwyr yn cael cefnogaeth dda ar y cyfan a'u bod yn cael cynnig cymorth gan yr Heddlu a gan asiantaethau allanol eraill. Teimlwyd bod swyddogion yn rhoi amser sylweddol i ymchwilio i'r digwyddiadau ac y dangosir empathi tuag

at y dioddefwyr. Fe ymddengys hefyd fod yna ddibyniaeth ar yr heddlu i ysgogi ac annog ymateb gan asiantaethau eraill i gefnogi dioddefwyr.

Nododd y Panel fod camau gweithredu a rhesymegau'n cael eu dogfennu'n dda yn y rhan fwyaf o achosion. Câi rhesymau'r dioddefwyr dros dynnu'n ôl eu cofnodi lle y bo'n briodol hefyd. Fodd bynnag, dim ond o fewn corff y testun ar y system rheoli troseddau y cai hyn ei gofnodi ac roedd angen sgrinio pob achos yn fanwl. Dywedodd yr aelodau fod angen i dystiolaeth o'r rhesymeg dros benderfyniad gael ei dogfennu'n drylwyr; er enghraifft, dylid nodi dymuniad dioddefwr i dynnu ei gefnogaeth yn ôl yn ei ddatganiad. Cynigiwyd ganddynt felly y byddai cwestiwn i annog swyddogion i egluro pam y tynnodd dioddefwr yn ôl yn sicrhau rhesymeg fanwl a chlir y gellir yn hawdd cael gafael arni eto wrth gasglu neu ddadansoddi data. Gallai hyn, ynghyd â dull strwythuredig o gasglu adborth gan wasanaethau cymorth, ddarparu mewnwelediad hanfodol er mwyn i'r Llu ddeall os gallai swyddogion neu asiantaethau eraill wneud mwy i sicrhau cefnogaeth dioddefwyr drwy gydol ymchwiliad.

Roedd y Panel hefyd yn dymuno nodi nad oedd dewis y dioddefwyr i dynnu eu cefnogaeth ar gyfer ymchwiliadau yn ôl o reidrwydd yn arwydd o fethiant ar ran yr heddlu, gan nad oedd swyddogion yn gallu rheoli penderfyniadau'r dioddefwyr.

Cafodd gwasanaethau cymorth eu cynnig i 10 o'r 14 dioddefwr. Ystyriodd y Panel y dylid gwneud pob ymdrech i sicrhau cytundeb cyswllt gyda'r dioddefwr er mwyn cytuno ar sut a phryd yr hoffent gael y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd yr achos. Dylid cyplysu hyn â'r cynnig i'w cyfeirio at wasanaethau cymorth perthnasol ym mhob achos.

Roedd un achos yn nodi'n gadarnhaol fod deunydd teledu cylch cyfyng wedi'i ystyried, ond nad oedd ar gael i gefnogi'r ymchwiliad. Ni nododd y Panel unrhyw achosion eraill lle gallai'r wybodaeth a gofnodwyd ddangos bod naill ai'r Camera Fideo a wisgir ar y corff, teledu cylch cyfyng neu recordiad fideo o gyfweliad dioddefwr, wedi eu defnyddio neu eu hystyried. Gall hyn fod yn gyfle am ragor o drafod er mwyn sicrhau cefnogaeth barhaus dioddefwyr, neu er mwyn gallu parhau i erlyn heb gymorth y dioddefwyr.

## 3.5 Gwasanaethau Cymorth

Mae'r CHTh yn comisiynu nifer o wasanaethau cymorth i ddioddefwyr er mwyn sicrhau eu bod yn cael cynnig cymorth amserol ac effeithiol i'w helpu i ymdopi ag effeithiau trosedd. Mae'r rhain yn cynnwys

- Goleudy, y gwasanaeth i ddioddefwyr a thystion, a fydd yn cysylltu â phob dioddefwr yn syth ar ôl i drosedd gael ei adrodd
- New Pathways, sy'n darparu gwasanaeth arbenigol i ddioddefwyr cam-drin rhywiol. Mae hyn yn cynnwys cymorth mewn argyfwng ar gyfer y rhai sy'n

cael archwiliadau meddygol fforensig o ganlyniad i'r drosedd, ac Eiriolaeth Trais Rhywiol Annibynnol parhaus i helpu dioddefwyr drwy'r broses cyfiawnder troseddol.

- Gwasanaeth Eiriolaeth Trais Domestig Annibynnol a gomisiynwyd ar y cyd gyda'r pedwar awdurdod lleol ar draws ardal y Llu. Mae'r gwasanaeth hwn yn rhoi cymorth arbenigol i ddioddefwyr cam-drin domestig a aseswyd fel rhai risg uchel.

Dengys sampl ar hap o ddata gan New Pathways ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2018 i 31 Mawrth 2019 y canlynol:

- Derbyniodd Canolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhyw (SARC) Caerfyrddin gyfanswm o 216 atgyfeiriad. Derbyniodd 95% o'r rhain gymorth.
- Derbyniodd SARC y Drenewydd gyfanswm o 99 atgyfeiriad, a manteisiodd 99% o'r rhain ar gymorth.
- Derbyniodd SARC Bow Street, Aberystwyth, gyfanswm o 45 atgyfeiriad, a manteisiodd 96% o'r rhain ar gymorth.

Dengys hyn fod dioddefwyr, gan amlaf, yn ymgysylltu â'r gwasanaeth cymorth pan gynigir cymorth arbenigol. Yn ystod y cyfnod 1 Medi 2018 i 31 Awst 2019, o'r llwyth achosion gweithredol o 622 cleient, roedd cyfanswm o 43 (6.9%) wedi tynnu'n ôl o wasanaeth New Pathways. Rhestrir isod y rhesymau a roddwyd gan y dioddefwr dros dynnu'n ôl:

| Rheswm | Nifer yr achosion |
|---|---|
| Gormod o oedi ar ran yr heddlu | 1 |
| Ddim yn meddwl y byddai'r achos yn mynd i unman/yn teimlo nad oedd tystiolaeth | 3 |
| Wedi cydsynio i ryw - y stori wedi newid | 2 |
| Y cleient ddim yn dymuno parhau â'r gŵyn | 4 |
| Methu ymdopi â'r ymchwiliad | 4 |
| Prysurdeb bywyd/gormod yn digwydd | 3 |
| Anhysbys | 5 |
| Gorbryder | 1 |
| Dymuno aros yn ffrind/bartner i'r un dan amheuaeth | 2 |
| Ddim eisiau rhoi pwysau ar y teulu | 1 |
| Dim ond eisiau rhoi rhybudd i'r un dan amheuaeth | 2 |
| Dim rheswm wedi'i gyflwyno gan y dioddefwr | 15 |

*Ffigur 2: Y rhesymau dros ddioddefwyr yn tynnu'n ôl o wasanaeth New Pathways*

O'r rhai a dynnodd yn ôl, cafwyd niferoedd cyfartal o gyflwyniadau acíwt a heb fod yn acíwt. Treisio oedd mwyafrif y troseddau (70%), gyda'r gweddill yn ymosodiadau rhyw. Atgyfeiriwyd yr achosion, yn bennaf, drwy'r heddlu (88%). Roedd 95% yn fenywod ac 84% yn 18 oed a throsodd.

Nid oes data manwl ar gael eto gan y gwasanaeth Cynghorwyr Trais Domestig Annibynnol (IDVA), ond mae tua 30% o atgyfeiriadau'n methu ag ymgysylltu ar y pwynt cyswllt cyntaf, gyda'r rhesymau am hyn yn cynnwys:

- Mae gan y dioddefwr fecanweithiau cymorth eraill
- Nid yw'r dioddefwr yn teimlo bod cymorth yn angenrheidiol nac yn berthnasol
- Ni ellir cysylltu â'r dioddefwr; nid yw'n ymateb i alwadau ffôn na llythyrau

Mae (tua) 10% arall o gleientiaid yn ymddieithrio ar gam diweddarach yn ystod y daith gymorth, ac mae hyn fel arfer am eu bod yn teimlo'u bod wedi derbyn yr hyn a ddymunent gan y gwasanaeth (e.e. cymorth i fynd i'r llys) ac nad ydynt yn teimlo bod angen y cymorth arnynt bellach. Gall hyn fod ychydig cyn y pwynt lle byddai'r IDVA yn eu hepgor yn naturiol o'r gwasanaeth.

Mae dioddefwyr cam-drin domestig yr aseswyd fel risg safonol neu ganolig ac sy'n rhoi adborth fel rhan o arolygon boddhad dioddefwyr Dyfed-Powys, yn cael eu holi a gawsant gynnig cymorth gan Goleudy ac a wnaethant ei dderbyn ai peidio. Mae data a gasglwyd yn ddiweddar dros gyfnod o dri mis yn dangos y canlynol:

- Dylai 54 o ddioddefwyr fod wedi cael eu hatgyfeirio i Goleudy yn dilyn digwyddiadau cam-drin domestig safonol neu ganolig.
- Adroddodd 27 (50%) na chawsant wybod am Goleudy.
- O'r 24[5] (44%) a gafodd gynnig atgyfeiriad, dim ond pedwar a fanteisiodd ar gymorth (17%). Roedd hyn yn cynnwys cyngor cyffredinol, cymorth emosiynol ac offer atal troseddu. Fodd bynnag, roedd y dioddefwr a dderbyniodd gyfarpar atal troseddu'n teimlo'n anfodlon gan y teimlent fod angen galwad dilynol arnynt ar ôl i'r cyfarpar gael ei osod.
- Dywedodd y rhai na dderbyniodd y cynnig o gymorth eu bod yn teimlo naill ai nad oedd angen cymorth arnynt o gwbl neu nad oedd y gwasanaeth yr hyn yr oedd ei angen arnynt. Fodd bynnag, ni ddarparwyd unrhyw wybodaeth bellach ynglŷn â'r hyn y teimlent a fyddai wedi'u cynorthwyo.

Dengys hyn nad oedd hanner y dioddefwyr a holwyd wedi cael y wybodaeth briodol nac wedi cael cynnig cymorth gan y swyddog adeg y digwyddiad, gyda dim ond 17% o'r dioddefwyr a atgyfeiriwyd at Goleudy yn dewis derbyn cymorth.

Yn ystod y flwyddyn o 1 Ebrill 2018 i 31 Mawrth 2019, derbyniodd gwasanaeth dioddefwyr a thystion Goleudy gyfanswm o 26,656 atgyfeiriad ar gyfer dioddefwyr pob trosedd. O'r rheiny, gwrthododd 15% y gwasanaeth. Amlinellir y rhesymau am hyn isod:

[5] Ni wnaeth 3 ateb y cwestiwn penodol hwnnw

| Rheswm | Nifer | Canran o'r cyfanswm a wrthododd |
|---|---|---|
| Y drosedd heb effeithio arnynt | 1902 | 46.9% |
| Cael cymorth gan deulu/asiantaeth | 874 | 21.6% |
| Dim rheswm wedi'i roi | 733 | 18.1% |
| Gwrthod | 456 | 11.2% |
| Ddim yn teimlo fel dioddefwr | 78 | 1.9% |
| Ddim yn cefnogi erlyniad | 11 | 0.3% |
| Gwahaniaeth diwylliannol | 1 | 0.02% |
| Cyfanswm | 4055 | 100% |

*Ffigur 3: Y rhesymau pam nad oedd dioddefwr wedi ymgysylltu â gwasanaeth Goleudy*

Dengys yr uchod gyfradd derbyn o 85% ar gyfer dioddefwyr pob trosedd ar gyfer gwasanaeth Goleudy. Fodd bynnag, dim ond 17% o ddioddefwyr cam-drin domestig a dderbyniodd yr un gwasanaeth. Y cyfraddau derbyn ar gyfer gwasanaeth a gynigir gan New Pathways yw 97% a thua 70% ar gyfer y gwasanaeth IDVA. Mae hyn yn awgrymu, er bod dioddefwyr cam-drin domestig a rhywiol yn ymgymryd â chymorth yn ystod y cam arbenigol, nid ydynt yn teimlo'u bod angen yr ymyriadau generig a gynigir adeg y pwynt cyswllt cyntaf.


## 3.6 Adborth gan Ddioddefwyr

Mae'r Llu'n cynnal arolwg o ddioddefwyr cam-drin domestig a dioddefwyr troseddau cyffredinol, ond nid ydynt yn gwneud hynny ar gyfer dioddefwyr ymosodiadau rhyw ar hyn o bryd. Nid yw'r broses o samplu ar hap yn eithrio yn ôl Canlyniad, felly cynhwysir trawstoriad o wahanol Ganlyniadau o fewn y set sampl. Mae'r graff isod[6] yn dangos y lefelau boddhad uchel a gofnodwyd gan ddioddefwyr sydd wedi tynnu cymorth yn ôl ar gyfer arolygon a gynhaliwyd yn y cyfnod hyd at Ionawr 2019 (yn seiliedig ar sampl o 125 dioddefwr).

Yr hyn sy'n bwysig i'w nodi o hyn yw, ar gyfer Canlyniadau 14 ac 16, bod cyfran uchel o'r dioddefwyr yn dweud eu bod yn fodlon â'u profiad cyffredinol. Yn wir, ymddengys fod dioddefwyr sy'n tynnu'n ôl yr un mor fodlon â'u profiad â'r rheiny sy'n derbyn Canlyniadau eraill.


Dengys y graff isod fod 80% o'r dioddefwyr â Chanlyniad 14 wedi adrodd eu bod yn fodlon, tra bo 85% o'r dioddefwyr â Chanlyniad 16 yn dweud eu bod yn fodlon.

[6] Noder fod y graffiau isod wedi cymryd data oddi ar system Qlikview y Llu. Dyma pam y ceir cyfeiriad at ddioddefwyr yn naill ai'n gwrthod rhoi neu'n tynnu cefnogaeth yn ôl ar gyfer y diffiniadau o Ganlyniadau.




*Ffigur 4: Bodlonrwydd defnyddwyr ar gyfer arolygon o ddioddefwyr trais yn erbyn y person a gynhaliwyd hyd at fis Ionawr 2019 (ar gyfer troseddau a gofnodwyd ym mis Hydref 2018) Canlyniadau 14 ac 16 yn unig*

Dengys y graff isod nifer yr ymatebwyr bodlon ar gyfer categorïau Canlyniad eraill; yn gyffredinol, roedd 75% o'r dioddefwyr hyn yn fodlon â'u profiad.




*Ffigurau 5: Bodlonrwydd defnyddwyr ar gyfer arolygon o ddioddefwyr trais yn erbyn y person a gynhaliwyd hyd at fis Ionawr 2019 (ar gyfer troseddau a gofnodwyd ym mis Hydref 2018) Pob Canlyniad*

Mae arolygon o ddioddefwyr achosion cam-drin domestig (lle mae'r dioddefwr wedi cadw mewn cysylltiad) yn datgelu'r adborth/argymhellion canlynol a dderbyniwyd gan ddioddefwyr:

- Mwy o gymorth i'r dioddefwr wrth gasglu tystiolaeth
- Anfon swyddogion ar y cyd â chynghorydd iechyd meddwl

- Dylai swyddogion fod yn fwy ymwybodol o ba wasanaethau y gallant eu cynnig i'r dioddefwr
- Dylid ymdrin â digwyddiadau'n llawn yn y lle cyntaf. Os nad yw hynny'n digwydd, mae hyn yn achosi methiant yn y galw a mwy o risg i'r dioddefwr pan fydd rhaid iddo adrodd am ddigwyddiad arall "ni wnaeth yr heddlu unrhyw beth yn y lle cyntaf ac yna aeth pethau'n waeth".
- Un adborth penodol sy'n cydfynd yn anecdotaidd ag adborth a dderbyniwyd gan ddarparwyr gwasanaethau, yw "Ffoniais i nhw i gael fy mhartner o'r safle, ond yn lle hynny fe wnaethon nhw ei gyhuddo a mynd ag e i ffwrdd. Doeddwn i ddim eisiau hynny".

## 3.7 Digwyddiadau Gwelliant Parhaus

Cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau gwelliant parhaus ar gyfer dioddefwyr yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Fe'u hamlinellir isod:

- 2 Ddigwyddiad taith dioddefwyr, yn ogystal â thaith benodol dioddefwyr cam-drin domestig
- Cam-drin Domestig x 2
- Boddhad Dioddefwyr
- Troseddau Rhyw (plant)
- Gweithdy llwybr y dioddefwr troseddau rhyw (oedolion)

Amlygodd digwyddiad gwelliant parhaus a gynhaliwyd ym mis Medi 2017, a ganolbwyntiodd ar foddhad dioddefwyr, fater yn ymwneud â'r ffaith nad oes storfa ganolog ar gyfer gwybodaeth. Rhestrodd nifer o safleoedd lle cedwir adborth gan ddioddefwyr ar hyn o bryd, gan gynnwys:

- System DIS-SAT a ddefnyddir i gofnodi enghreifftiau o anfodlonrwydd cwsmeriaid / cwynion
- Arolygon Boddhad Dioddefwyr
- Adran Safonau Proffesiynol
- Biwro Gwasanaethau Cyhoeddus
- Canolfan Rheoli'r Llu
- Swyddogion rheng flaen
- Hawl Dioddefwyr i Adolygiad
- Adborth Gofalwn
- Cwynion gan gwsmeriaid yn uniongyrchol i adrannau
- Goleudy (gofal dioddefwyr a thystion)
- Cyfryngau cymdeithasol
- Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu
- Panel Craffu Gwarediadau y Tu Allan i'r Llys

Cynigiwyd datrysiad posibl o storfa ganolog ar gyfer crynhoi'r holl adborth. Roedd y cynllun gweithredu hwn yn eiddo i'r Uwch-arolygydd a oedd yn dal y portffolio ar y pryd, ond ni chafwyd penderfyniad ar y weithred benodol hon.

Roedd y materion a godwyd yn y digwyddiad troseddau rhyw ar gyfer plant ym mis Tachwedd 2017 yn cynnwys y ffaith nad oedd llwybrau cymorth yn glir; er enghraifft, nid oedd swyddogion yn ymwybodol o ba gymorth sydd ar gael i ddioddefwyr ac nid oedd Goleudy yn ymwybodol o bwy arall sy’n cefnogi’r plentyn wrth iddynt hwy gefnogi’r rhieni. Rhoddwyd gwybod i’r Bwrdd Dioddefwyr am y cynllun gweithredu hwn er mwyn ystyried atebion.

Mae rhai o’r materion a chamau gweithredu dilynol a nodwyd o’r digwyddiad mapio cam-drin domestig a gynhaliwyd ym mis Ionawr 2019 yn cynnwys:

- Dyblygu rhwng Goleudy, yr Adran Ymchwilio i Droseddau, Swyddogion Cam-drin Domestig ac ati ynglŷn ag atgyfeiriadau i adrannau eraill. Mewn cyfarfod yng nghanol mis Hydref i drafod y cymorth a roddir i ddioddefwyr cam-drin domestig, nodwyd bod hyn yn dal i fod yn broblem.
- Nid oedd pob rhif diogel ar gyfer dioddefwyr yn cael ei dynnu o’r terfynellau data symudol i’r System Rheoli Troseddau. Er bod hyn wedi gwella tipyn erbyn hyn, mae’n parhau i fod yn broblem gyda data ar gyfer yr arolygon o foddhad dioddefwyr ym mis Awst 2019 yn adrodd bod 24% (185) o gofnodion heb unrhyw rif ffôn diogel.
- Dryswch ynglŷn â phwy sy’n gyfrifol am roi’r wybodaeth ddiweddaraf i’r dioddefwr, gan arwain at nifer o asiantaethau’n cysylltu â dioddefwyr. Dyrannwyd y cam gweithredu hwn i Hyrwyddwr Dioddefwyr y Llu, ond mae’n parhau i fod yn fater sydd angen ei ddatrys.

Dyrannwyd y camau gweithredu uchod i amrywiaeth o grwpiau, gan gynnwys y Bwrdd Dioddefwyr, y Grŵp Aur Cam-drin Domestig a’r Fframwaith Arfer Orau ar gyfer Cam-drin Domestig ar gyfer llysoedd. Fodd bynnag, nid oes lleoliad canolog lle y caiff perchnogion y gweithrediadau eu dwyn i gyfrif ac ni cheir goruchwyliaeth strategol er mwyn llywio’r gwaith o wella gwasanaethau.

Y noddwyr yw perchnogion y cynlluniau gweithredu o’r digwyddiadau uchod, a’r noddwyr sy’n gyfrifol am bennu’r fforwm priodol ar gyfer adroddiadau a diweddariadau. Nid oes cyfeiriad strategol canolog yn gyrru gwaith y tîm Gwelliant Parhaus ac ni adroddir ar y cynlluniau gweithredu sy’n deillio ohonynt drwy unrhyw strwythur llywodraethu canolog o fewn y Llu. Mae hyn yn golygu nad yw tueddiadau sy’n dod i’r amlwg ar draws digwyddiadau, dros amser ac ar draws adrannau, yn cael eu nodi. Mae hyn yn arwain at ddyblygu ymdrech a methiant i symud ymlaen ar gamau allweddol.

## 3.8 Adroddiadau ac adolygiadau blaenorol o fewn Dyfed-Powys

Mae’r Llu wedi comisiynu nifer o adolygiadau yn fewnol ac yn allanol ynghylch y broses o ymgysylltu â dioddefwyr. Mae’r adran isod yn archwilio’r gwersi a’r argymhellion sy’n deillio o’r ymarferion hyn.

### 3.8.1 Mewnwelediadau gan Ddioddefwyr[7]

Cynhaliwyd prosiect ymchwil yn 2016 gan Brifysgol De Cymru er mwyn deall y rhesymau sylfaenol dros adrodd am drais rhywiol ac ymosodiadau rhyw, neu beidio adrodd amdanynt. Cafodd yr ymchwil hon ei chymeradwyo gan y CHTh a ddarparodd £11,038 o gyllid er mwyn galluogi'r ymchwil i gael ei gwneud.

Yn wreiddiol, cytunodd 30 dioddefwr i gymryd rhan ond dim ond 17 a roddodd adborth. Dylid bod yn ofalus, felly, ynglŷn â nifer cyfyngedig y cyfranogwyr. Serch hynny, mae eu hadborth yn bwysig er mwyn helpu i lywio gwelliannau i'r gwasanaeth.

Y prif reswm pam nad oedd unigolion yn rhoi gwybod am droseddau rhyw pan oeddent wedi digwydd oedd bod y dioddefwyr yn meddwl na fyddai neb yn eu credu. Rheswm arall oedd bod ganddynt ormod o gywilydd i adrodd am y mater a bod arnynt ofn yr un a gyflawnodd y drosedd. Roedd y canfyddiad mai un o'r prif resymau dros beidio ag adrodd am y digwyddiad yn y lle cyntaf oedd diffyg hyder yn yr heddlu, o bosibl, yn cael ei weld fel ffactor o bwys wrth i ddioddefwyr wneud penderfyniadau.

Roedd y prif resymau dros adrodd am y digwyddiadau yn ddiweddarach yn ymwneud â'r cymorth a ddangoswyd i’r dioddefwyr gan bobl eraill. Roedd hyn yn cynnwys teulu, ffrindiau a chyd-weithwyr a oedd yn annog ac yn cefnogi'r dioddefwyr. Mae hyn yn cyd-fynd â chanfyddiadau eraill lle mae'r dioddefwyr yn ceisio cefnogaeth a chysur y teulu agos yn union ar ôl digwyddiad o'r fath, yn hytrach na chysylltu â'r heddlu neu asiantaethau eraill er mwyn adrodd.

Roedd yr unigolion hynny a ddywedodd eu bod wedi cael eu trin gan Gymorth i Ddioddefwyr[8] fel pe baent yn awgrymu na chawsant ddigon o gymorth adeg y digwyddiad nac yn y cyfnodau dilynol. Awgrymwyd bod y cyngor a'r cymorth a gynigid yn gyffredinol ei naws ac nad oedd yn ddefnyddiol iawn i'r unigolion dan sylw. Roedd yr adborth yn cynnwys:

- "*Mae angen atgyfeirio mwy penodol at y math cywir o gymorth. Y cyfan oedd gen i oedd cerdyn Cymorth i Ddioddefwyr a rhif ffôn*"

[7] Adrodd hanesyddol am droseddau rhyw i Heddlu Dyfed-Powys a gynhaliwyd gan yr Athro Colin Rogers, y Ganolfan Ryngwladol ar gyfer Plismona a Chraffu, Prifysgol De Cymru 2016

[8] Yn hanesyddol, roedd Cymorth i Ddioddefwyr yn darparu’r gwasanaeth pwynt cyswllt cyntaf i ddioddefwyr a gynhelir bellach gan Goleudy

- *"Dewisais beidio â ffonio'r rhif cyffredinol gan fy mod i eisiau cynghorwr penodol"*
- *“Roedd rhywfaint o’r cyngor dechreuol o gymorth i mi, ond nid wedyn. Ni chynigiwyd unrhyw gwnsela tan ar ôl yr achos llys, gan mai dyna’r polisi”*

Derbyniodd New Pathways adborth cymysg yn yr adroddiad, yn amrywio o “*Gwych ar y noson ac roedd y cwnsela dilynol yn ddefnyddiol iawn, ond dim ond 16 mis ar ôl yr ymosodiad”* i “*Roedd rhaid teithio dwy awr bob ffordd i adeilad nad oedd yn hygyrch i gadeiriau olwyn. Pan agorodd New Pathways gangen yn y Drenewydd, roedd yn well o lawer. Hanerodd y teithio ac roedd y gefnogaeth a roddwyd yno yn wych”*.

Cafwyd rhai profiadau gwael iawn o’r gwasanaeth New Pathways; mae rhai o’r rhain yn ymwneud ag argaeledd cwnsela therapiwtig, “*Dim ond wedi dechrau cwnsela ddwy flynedd ar ôl y digwyddiad*”, sy’n fethiant cydnabyddedig yn y system bresennol ac yn un y mae’r Comisiynydd Heddlu a Throseddu wedi’i godi’n rheolaidd gyda phartneriaid a swyddogion y Llywodraeth.

Roedd argymhellion yr astudiaeth yn cynnwys:
- Dylid annog teulu a ffrindiau i sicrhau bod y dioddefwr yn adrodd am y mater.
- Dylid defnyddio arbenigwyr cyn gynted â phosibl yn y fan a'r lle er mwyn lleihau'r feirniadaeth ar ymatebwyr cyntaf. Mae hyn yn cynnwys staff o New Pathways.
- Dylai'r dioddefwr gael gwybodaeth neu gyfarwyddyd ynglŷn â’r 'daith' sydd angen ei chymryd o fewn y system cyfiawnder troseddol cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

Mae'r adolygiad hwn yn cefnogi'r ddamcaniaeth a nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad nad yw cymorth gwasanaeth cyffredinol yn cynnig y gwasanaeth sydd ei angen ar ddioddefwyr ymosodiadau rhyw a bod angen ymyrraeth arbenigol arnynt cyn gynted â phosibl.

Cyflwynwyd yr argymhellion i Wasanaeth Erlyn y Goron ac yn fewnol o fewn y Llu i'r Adran Ymchwilio i Droseddau. O ganlyniad, ymgorfforwyd rhai camau yn y cynllun gweithredu tactegol ar gyfer y portffolio trais rhywiol a throseddau rhyw. Fodd bynnag, mae'r cynllun hwn ar lefel weithredol ac ar hyn o bryd nid oes ganddo gysylltiad adrodd uniongyrchol ag unrhyw gynllun strategol er mwyn darparu trosolwg neu gysylltiadau ar draws adrannau eraill.

### 3.8.2 Adolygiad o Ganlyniad 16[9]

[9] Canlyniad 16: Anawsterau tystiolaethol: yr un dan amheuaeth wedi’i adnabod; nid yw’r dioddefwr yn cefnogi camau pellach. Cydweithio ac Effeithiolrwydd. Medi 2017

Ym mis Medi 2017, cynhaliodd y tîm Cydweithredu ac Effeithiolrwydd adolygiad o'r defnydd a wneir o Ganlyniad 16 ar gyfer troseddau cam-drin domestig. Deilliodd y darn hwn o waith yn sgil y canfyddiad bod Heddlu Dyfed-Powys wedi cynyddu'n sylweddol eu defnydd o Ganlyniad 16 ar gyfer troseddau domestig.

Dangosodd yr adolygiad fod y Llu ddwywaith yn fwy tebygol o ddefnyddio Canlyniad 16 ar gyfer trosedd treisgar ym mis Medi 2017 nag yr oeddent ym mis Ebrill 2014. Roedd Dyfed-Powys hefyd yn uwch na'i grŵp tebycaf o Heddluoedd o ran y defnydd o Ganlyniad 16 ar gyfer pob trosedd ac o ran achosion o Drais yn Erbyn y Person.

Roedd yr adolygiad yn cynnwys archwiliadau sirol o gam-drin domestig risg safonol ym misoedd Mai a Mehefin 2017. Mae'r prif feysydd i'w gwella a amlygwyd gan yr archwiliadau wedi'u cynnwys isod:

- Cofnodi bod yr ymchwiliadau priodol wedi'u cynnal, fel ymholiadau o dŷ i dŷ a chyfweld tystion
- Goruchwylwyr ddim yn herio rhai o'r penderfyniadau ymchwiliol gan eu staff; felly nid yw erlyniadau heb ddioddefwyr yn cael eu nodi lle bo hynny'n briodol
- Rhai cyfleoedd ar gyfer tystiolaethol yn cael eu colli. Er enghraifft, nid oedd camera fideo ar gorff a/neu dystiolaeth 999 yn cael ei ganfod ar bob achlysur
- Nid yw swyddogion bob amser yn cofnodi cofnod mewn llyfr nodiadau poced wedi'i lofnodi, nac ar y MG11 er mwyn cefnogi'r ffaith nad yw'r dioddefwr bellach yn dymuno mynd ar drywydd cŵyn
- Pan ddywedodd dioddefwr nad oedd yn dymuno cefnogi'r ymchwiliad mwyach, ni wnaed unrhyw waith pellach
- Diffyg cyfeirio at asiantaethau cymorth
- Nid oedd y rhesymeg dros gofnodi Canlyniad 16 bob amser wedi'i chofnodi'n llawn ar y log troseddau
- Oedi yn ystod yr ymchwiliad: fodd bynnag, mae gwaith ymchwilio o ran chwe mis a 12 mis a mwy bellach wedi dechrau ac yn lleihau amserlenni'n llwyddiannus

Amlygodd yr adolygiad rai pryderon ymchwiliol allweddol ond hefyd atgyfnerthodd y materion a godwyd yn y digwyddiadau gwelliant parhaus ynghylch diffyg cyfeirio at asiantaethau cymorth a phryderon ynghylch diweddariadau i ddioddefwyr. Adroddwyd ar argymhellion yr adolygiad i'r uwch dîm rheoli o fewn yr Adran Ymchwilio i Droseddau, ond nid yw'n glir pa gamau a gymerwyd er mwyn mynd i'r afael â'r argymhellion. Deellir bod rhai gweithredoedd wedi'u hymgorffori yn y cynlluniau gweithredu tactegol; fodd bynnag, fel yr amlinellir uchod, nid oes unrhyw drosolwg strategol canolog o'r cynllun hwn na'r gallu iddo fod yn sail i waith trawsadrannol.

### 3.8.3 Adolygiad o Ganlyniad 16[10]

Ym mis Medi 2018, dadansoddodd adolygiad o Ganlyniad 16 gan y tîm Perfformiad a Llywodraethu ddata o'r cyfnod rhwng Ebrill 2014 ac Awst 2018. Noda'r adroddiad fel un o'i ganfyddiadau mwy arwyddocaol bod y Llu'n defnyddio'r gyfradd uchaf o Ganlyniad 16[11] ar gyfer y cyfanswm troseddau o'i gymharu â'r grŵp tebycaf o Heddluoedd, a'r cyfartaledd cenedlaethol ar draws y cyfanswm troseddau. Dyma'r trydydd uchaf ar draws yr Heddluoedd yng Nghymru a Lloegr.

Yn genedlaethol, Dyfed-Powys yw'r seithfed Llu uchaf o ran cyfradd y defnydd o Ganlyniad 16 ar gyfer troseddau trais yn erbyn y person. Mae'r Llu yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol a'r Grŵp Tebycaf o Heddluoedd. Mae'r canfyddiadau hyn yn adlewyrchu'r canfyddiadau a ddangoswyd yn yr adolygiad a gynhaliwyd gan y tîm Cydweithredu ac Effeithiolrwydd flwyddyn cyn hynny.

Er bod y data'n aneglur ynghylch pam fod cyfraddau'r defnydd o Ganlyniad 16 wedi cynyddu dros amser, neu a fydd yn parhau i gynyddu, mae'r berthynas gydberthynol groes bosibl rhwng Canlyniad 18 a Chanlyniad 16 yn gysylltiad sydd angen ei archwilio (defnydd y Llu o Ganlyniad 18: *Heb adnabod yr un dan amheuaeth* yw'r isaf ymhlith 39 o Heddluoedd a ddarparodd ddata). Argymhellodd yr adolygiad y dylid ymchwilio ymhellach i'r defnydd o Ganlyniad 16 a'i addasrwydd, drwy archwiliad troseddu, er mwyn deall yn llawn sut y mae'n cael ei ddefnyddio'n aml. Fel y nodwyd ar ddechrau'r adroddiad hwn, gall y diffyg eglurder ynghylch diffiniadau a ddefnyddir o fewn y Llu ar gyfer Canlyniadau 14 ac 16 yn arbennig fod yn cyfrannu at hyn.

### 3.8.4 Adolygiad o Drais Rhywiol a Throseddau Rhyw Difrifol[12]

Hefyd ym mis Medi 2018, cynhaliodd y Tîm Perfformiad a Llywodraethu adolygiad i amlygu meysydd oedi er mwyn gwella taith y dioddefwr mewn achosion o dreisio a throseddau rhyw difrifol, yn ogystal â darparu gwell gwasanaeth i ddioddefwyr. Canolbwyntiodd yr adolygiad ar achosion a oedd wedi bod ar agor am 12 mis neu fwy.

Yr amser a gymerwyd, ar gyfartaledd, i gael cyfweliad dioddefwr ar ôl i'r trosedd gael ei adrodd oedd chwe diwrnod; roedd y prif gyfnodau o oedi a nodwyd o ganlyniad i iechyd meddwl a diffyg cydweithredu â'r heddlu. Unwaith yr oedd cyfweliad dioddefwr wedi digwydd, cymerwyd 39 diwrnod, ar gyfartaledd, i arestio neu gyfweld yr un dan amheuaeth; achosion hanesyddol welodd yr oedi mwyaf

---

[10] Adolygiad Canlyniad 16 Medi 2018 Tîm Perfformiad a Llywodraethu
[11] Dylid nodi bod yr adolygiad hwn wedi defnyddio'r disgrifiad o Ganlyniad 16 a ddarperir o fewn canllaw'r Llu, h.y. anawsterau tystiolaethol: yr un dan amheuaeth wedi'i adnabod; nid yw'r dioddefwr yn cefnogi camau pellach
[12] Adolygiad o Drais a Throseddau Rhyw Difrifol Medi 2018 Tîm Perfformiad a Llywodraethu

gan fod rhai wedi symud o ardal y Llu ac felly ei bod yn cymryd mwy o amser i ddod o hyd iddynt.

Roedd canfyddiadau mwyaf nodedig yr adolygiad yn ymwneud â'r amser a gymerwyd ar gyfer prosesau cyflwyno a dadansoddi o fewn yr Uned Cyfathrebu Digidol a Seiberdroseddu (DCCU) ac oedi o fewn y broses cyflwyno ffeiliau; er enghraifft, yr amser a gymerwyd, ar gyfartaledd, i gyflwyno achos am gyngor cyn cyhuddo, oedd 46 wythnos, ac roedd cyflwyno i Wasanaeth Erlyn y Goron yn cymryd 46 wythnos. 10 wythnos oedd y cyfnod ymateb i gyflwyniad tro cyntaf gan Wasanaeth Erlyn y Goron, gyda ffeiliau achos yn cael eu dychwelyd gan Wasanaeth Erlyn y Goron am waith pellach ddwywaith y ffeil, ar gyfartaledd.

Bydd buddsoddiad diweddar y CHTh mewn offer a thechnoleg newydd i wella gallu seiberdroseddu'r Llu yn helpu i fynd i'r afael â rhai o'r materion hyn. Mae'r cyllid wedi helpu i gynyddu'r gallu arbenigol ar gyfer archwilio dyfeisiau digidol a chyflwyno dulliau brysbennu ar gyfer blaenoriaethu dyfeisiau lle mae'r cyfle gorau i adennill tystiolaeth. Mae hyn yn hanfodol mewn achosion o gam-drin domestig a rhywiol lle mae dioddefwyr yn wynebu mwy o risg o ymddieithrio yn ystod ymchwiliadau hirfaith.

### 3.8.5 Adolygiad o Ganlyniad 16[13]

Ym mis Tachwedd 2018, cynhaliwyd adolygiad manylach o Ganlyniad 16 gan yr Arolygydd Diane Davies, gyda'r nod o adolygu cywirdeb y gymeradwyaeth derfynol o Ganlyniad 16. Nododd yr adroddiad fod Heddlu Dyfed-Powys yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o ran y gymeradwyaeth derfynol o Ganlyniad 16 a'i fod yr uchaf o fewn ei grŵp tebycaf, gan adlewyrchu'r sefyllfa a nodwyd mewn adroddiadau blaenorol.

Canfu'r adolygiad dystiolaeth sylweddol o achosion lle nad oedd yr heddlu yn siarad ag unrhyw un o'r rhai dan amheuaeth a enwyd; yn y rhan fwyaf o achosion, ni chyflwynwyd unrhyw resymeg i'r penderfyniad o beidio ag ymgysylltu â'r sawl dan amheuaeth. Ceir tystiolaeth o fewn y set sampl lle mae'r un dan amheuaeth a enwyd wedi mynd ymlaen i gyflawni troseddau honedig pellach, gan gynnwys troseddau domestig yn erbyn yr un dioddefwr. Mae'r adroddiadau'n nodi bod methu ag ymgysylltu â'r rhai dan amheuaeth yn gyfle i ymyrryd aflwyddiannus a'i fod yn tynnu sylw at ddiffyg ystyriaeth gyson ar gyfer erlyn heb ddioddefwyr.

Roedd canfyddiad pellach yn ymwneud ag anghywirdeb wrth gofnodi'r gymeradwyaeth derfynol o Ganlyniad 16. Yn seiliedig ar set sampl o 60 achos a gymeradwywyd yn derfynol fel Canlyniad 16, roedd 21 (35%) wedi'u cymeradwyo'n anghywir.

[13] Adolygiad Canlyniad 16 Tachwedd 2018. Awdur: Diane Davies

Profwyd cydymffurfiaeth â'r Cod Ymarfer i Ddioddefwyr (VCOP) o fewn yr adolygiad. Cafodd dros 50% o'r set ddata (34 achos) eu hasesu fel rhai nad oeddent yn cydymffurfio; nodwyd hyn yn yr adolygiad fel un arbennig o rwystredig o ystyried ei fod yn faes yr adroddwyd arno eisoes gyda gwelliant cyfyngedig.

Mae rhai o'r argymhellion allweddol sy'n deillio o'r gwaith wedi'u cynnwys isod:

- Cofrestrydd Troseddau a Digwyddiadau’r Llu (FCIR) i ddiweddaru’r polisi ar y gofynion o ran cymeradwyaeth derfynol Canlyniad 16. Ar hyn o bryd, mae angen cadarnhad ysgrifenedig gan y dioddefwr nad yw'n cefnogi erlyniad. Ni chydymffurfir â'r polisi hwn fel mater o drefn ac mae'n gwrthdaro â’r arferion gweithio a dderbynnir.
- Arweinydd VCOP i ddatblygu cynllun gweithredu ar gyfer gwella perfformiad.
- FCIR i ddatblygu taflen atgoffa un dudalen ar gyfer staff yn crynhoi pob pob Canlyniad sydd ar gael.
- FCIR i ddarparu hyfforddiant ac ymwybyddiaeth bwrpasol ar Ganlyniadau ar gyfer Hyrwyddwyr Cywirdeb Data Troseddau (CDI).
- Blaenoriaethu ‘THRIVES’ (Bygythiad, Niwed, Risg, Ymchwiliad, Bregusrwydd, Ymgysylltiad a Diogelu) ar Ddadansoddiad o Anghenion Hyfforddi’r Llu.
- Rheolwr perfformiad i ystyried a ddylai staff Canolfan Reoli’r Llu (FCC) ddatblygu sgiliau holi sy’n defnyddio cwestiynau mwy agored.

Mae nifer o'r argymhellion yn adlewyrchu'r rhai a ddarparwyd yn yr adroddiad gan y tîm Cydweithio ac Effeithiolrwydd flwyddyn ynghynt. Mae'r rhain yn cynnwys archwiliad llawn o'r potensial ar gyfer erlyniadau heb ddioddefwyr, sicrhau bod dioddefwyr yn darparu llofnod fel tystiolaeth eu bod wedi tynnu eu cefnogaeth yn ôl, y rhesymeg dros ddefnyddio Canlyniad 16 ddim bob amser yn bresennol/ gywir, a bod oedi mewn ymchwiliadau. Mae'r adolygiad hefyd yn darparu tystiolaeth gynharach o'r canfyddiadau a amlinellwyd ar ddechrau'r adroddiad hwn ynglŷn â diffyg eglurder mewn dogfennau canllaw a pha bolisïau na chedwir atynt.

Er bod rhai o'r argymhellion wedi cael sylw drwy'r gwaith i leihau hyd ymchwiliadau a chyflwyno'r ddesg bregusrwydd, mae llawer o faterion a amlinellir yn yr adroddiad yn cyd-fynd ag argymhellion o adolygiadau ac adroddiadau eraill sy’n parhau i fod heb eu datrys.

### 3.8.6 Adolygiad o Droseddau Rhyw[14]

Ym mis Ionawr 2019, cynhaliwyd adolygiad o droseddau rhyw gan y Tîm Perfformiad a Llywodraethu. Roedd yr adolygiad yn cynnwys dadansoddiad o 1649

Adolygiad Troseddau Rhyw Ionawr 2019 Tîm Perfformiad a Llywodraethu

o droseddau rhyw a gofnodwyd ac a gymeradwywyd yn derfynol rhwng mis Ionawr 2014 a mis Tachwedd 2018.

Edrychodd yr adolygiad ar y tri phrif reswm a nodwyd ar gyfer achosion a gaewyd gyda Chanlyniadau 14, 16 neu 18. Roedd y ffaith nad oedd y dioddefwr eisiau cael cyswllt â'r heddlu ac iechyd meddwl o fewn y tri phrif reswm ym mron pob categori oedran. Mae'r tablau isod yn dangos y rhesymau a ddarparwyd ar gyfer y defnydd o'r Canlyniadau.

| Rhesymau dros gymeradwyaeth terfynol Canlyniad 14 | Canran |
|---|---|
| 1- **Ddim eisiau cyswllt â'r heddlu**<br>(*Naill ai wedi gwrthod rhoi datganiad, cyfweliad fideo neu ddim am fynd i'r llys/cefnogi erlyniad*) | **44%** |
| 2- **Iechyd Meddwl**<br>(*Nid yw'r dioddefwr am i ymchwiliad ddechrau/fynd ymhellach gan ei fod yn effeithio ar ei iechyd meddwl* ) | **28%** |
| 3- **Ddim yn ystyried eu hunain fel dioddefwyr trosedd**<br>(*Dim ond eisiau adrodd y drosedd/geiriau o gyngor*) | **14%** |
| 4 - **Dim datgeliadau gan y dioddefwr - wedi'u hadrodd gan drydydd parti**<br>(*Wedi'u hadrodd gan yr ysgol, gweithiwr iechyd proffesiynol neu aelod o'r teulu*) | **9%** |
| 5- **Am i'r ysgol neu wasanaethau cymorth ddelio â'r mater**<br>(*Mae hyn yn fwyaf cyffredin mewn achosion 'plant ar blant'. Mae rhieni'r ddau barti am i'r ysgol ddelio â'r digwyddiad*) | **5%** |

*Ffigur 6: Rhesymau dros gymeradwyaeth terfynol Canlyniad 14*

| Rhesymau dros gymeradwaeth terfynol Canlyniad 16 | Canran |
|---|---|
| 1- **Ddim eisiau cyswllt â'r heddlu**<br>(*Naill ai wedi gwrthod rhoi datganiad, cyfweliad fideo neu nid yw am fynd i'r llys/cefnogi erlyniad*) | **53%** |
| 2- **Iechyd Meddwl**<br>(*Nid yw'r dioddefwr am i ymchwiliad ddechrau/fynd ymhellach gan ei fod yn effeithio ar ei iechyd meddwl* ) | **22%** |
| 3- **Ddim yn ystyried eu hunain fel dioddefwyr trosedd**<br>(*Dim ond eisiau adrodd y drosedd/geiriau o gyngor*) | **15%** |
| 4- **Am i'r ysgol neu wasanaethau cymorth ddelio â'r mater**<br>(*Mae hyn yn fwyaf cyffredin mewn achosion 'plant ar blant'. Mae rhieni'r ddau barti am i'r ysgol ddelio â'r digwyddiad*) | **6%** |
| 5- **Dim datgeliadau gan y dioddefwr - wedi'u hadrodd gan drydydd parti**<br>(*Wedi'u hadrodd gan yr ysgol, gweithiwr iechyd proffesiynol neu aelod o'r teulu*) | **4%** |

*Ffigur 7: Rhesymau dros gymeradwyaeth terfynol Canlyniad 16*

Mae dioddefwyr a ddywedodd fod eu hiechyd meddwl yn rheswm dros beidio â pharhau i gefnogi ymchwiliad, wedi dod yn fwy cyffredin mewn llawer o droseddau rhyw a gofnodwyd, yn enwedig ymhlith pobl ifanc.

## 3.9 Adolygiadau Cenedlaethol

### 3.9.1 Adolygiad o Drais Rhywiol yn Llundain[15]

Ym mis Gorffennaf 2019, cyhoeddodd Swyddfa Maer Llundain ar gyfer Plismona a Throsedd adolygiad o achosion o drais rhywiol. Astudiwyd 501 honiad o drais rhywiol o Ebrill 2016. Ystyriodd yr adolygiad hwn ffactorau sy'n effeithio ar ddioddefwyr sy'n tynnu'n ôl. Amlinellir rhai o'r prif ganfyddiadau isod.

O'r 501 achos a astudiwyd, tynnodd 58% o'r dioddefwyr yr honiad yn ôl. Roedd y rhagfynegyddion cryfaf o dynnu'n ôl a phenderfyniadau Dim Camau Pellach yr heddlu yn nodweddion gweithdrefnol. Tynnu'n ôl oedd y ffurf fwyaf cyffredin o athreuliad. Roedd y dioddefwyr a dynnodd yn ôl wedi gwneud hynny'n fuan ar ôl adrodd a'r mwyafrif ohonynt yn ystod cam ymchwiliad yr heddlu.

Roedd y rhesymau dros dynnu'n ôl yn gymhleth ac yn aml yn cydberthyn. Yn aml, roedd yna nifer o resymau dros dynnu'n ôl, a'r mwyaf cyffredin oedd:

- Y straen a'r trawma a achoswyd neu a waethygwyd gan yr ymchwiliad, yn enwedig wrth i'r dioddefwyr orfod siarad yn fanwl am y digwyddiad
- Awydd i symud ymlaen o'r hyn a ddigwyddodd. Digwyddai hyn yn aml wrth i'r dioddefwyr deimlo syndod a chael eu llethu gan broses ymchwiliad swyddogol yr heddlu
- Pryder am eu diogelwch eu hunain, neu am sefyllfa'r cyflawnwr ei hun, yn enwedig mewn achosion o gam-drin domestig pan mai blaenoriaeth y dioddefwyr oedd rhoi terfyn ar yr ymddygiad niweidiol, yn hytrach nag erlyn
- Y weithred o adrodd yn ddigon ynddi'i hun, gyda rhesymau dros adrodd yn canolbwyntio ar y dioddefwyr eisiau cael y digwyddiad oddi ar eu brest, neu eu bod yn gweld adrodd fel eu dyletswydd ddinesig (yn nhermau darparu gwybodaeth berthnasol a deallusrwydd)
- Y dioddefwyr ddim wedi dymuno rhoi gwybod am y treisio yn y lle cyntaf, yn enwedig mewn achosion lle cafodd yr adrodd ei wneud yng nghyd-destun yr asesiad risg o Gam-drin Domestig, Stelcian ac Aflonyddu (DASH).

Roedd yn amlwg o'r ymchwil bod nodweddion gweithdrefnol, fel y broses o gyflwyno Pecyn Tystiolaeth Gynnar (EEK), sy'n galluogi'r swyddogion i gadw tystiolaeth fforensig gan y dioddefwr, yn cael effaith ar ddioddefwyr yn tynnu'n ôl. Roedd y dioddefwyr a dderbyniodd Becyn Tystiolaeth Cynnar ddwywaith yn llai tebygol o dynnu'n ôl.

[15] Adolygiad o Drais Rhywiol yn Llundain: Adolygiad o achosion o 2016. Cyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2019 gan Swyddfa Maer Llundain ar gyfer Plismona a Throsedd.

Mae'n werth nodi hefyd fod dioddefwyr chwe gwaith yn llai tebygol o dynnu'n ôl os oeddent yn cymryd rhan mewn Cyfweliad wedi'i Recordio ar Fideo (VRI). Fodd bynnag, roedd yn aml yn cymryd sawl ymgais i gwblhau'r VRI, ac roedd yn gyffredin i ddioddefwyr dynnu'n ôl cyn iddo ddigwydd. Argymhellodd yr adroddiad adolygiad rheolaidd er mwyn gweld a gafodd Cyfweliadau wedi'u Recordio ar Fideo eu cynnig, ac a yw dioddefwyr yn cael yr holl gymorth sydd ei angen arnynt i gymryd rhan.

Rhagwelwyd y byddai cael nifer o swyddogion yn gyfrifol am yr achos yn arwain at debygolrwydd uwch (x8) o ddioddefwyr yn tynnu'n ôl. Fel arfer, byddai dioddefwyr yn cysylltu â'r swyddog a hyfforddwyd i ymchwilio i droseddau rhyw, yn hytrach na'r swyddog oedd yn arwain yr ymchwiliad.

Yr unig nodwedd dioddefwr a ragwelai ddioddefwr yn tynnu'n ôl oedd rhyw: roedd dioddefwyr gwrywaidd dair gwaith yn llai tebygol o dynnu'n ôl o'u cymharu â dioddefwyr benywaidd. Roedd presenoldeb tystion yn gwneud dioddefwyr lawer yn llai (x2) tebygol o dynnu'n ôl, ynghyd ag achosion lle'r oedd y dioddefwyr wedi dioddef anaf (x2). Roedd dioddefwyr a adroddodd am eu treisio mewn ymateb i gwestiynau DASH, a holwyd pan ymatebodd yr heddlu i alwad cam-drin domestig, deirgwaith yn fwy tebygol o dynnu'n ôl na dioddefwyr a adroddodd drwy ddulliau eraill.

## 3.10 Adolygiadau o Ddynladdiad Domestig

Partneriaethau Diogelwch Cymunedol sy'n gyfrifol am gynnal Adolygiadau o Ddynladdiad Domestig, a darperir canllawiau gan y Swyddfa Gartref. Nid yw hyn yn cyd-fynd â'r prosesau Diogelu ar gyfer cynnal Adolygiadau o Achosion Difrifol ar hyn o bryd, ac mae wedi codi gosod rhywfaint o heriau ar lefel Dyfed-Powys o ran pwy ddylai fod yn atebol ac yn goruchwylio'r cynlluniau gweithredu dilynol. Ar hyn o bryd, nid yw'r CHTh yn derbyn unrhyw ohebiaeth ffurfiol gan bartneriaethau ynghylch y broses adolygu na'r cynlluniau gweithredu, sy'n aml yn cynnwys argymhellion ar gyfer y Llu.

Er ei bod yn ofynnol i bartneriaethau roi gwybod i'r Swyddfa Gartref am gynlluniau gweithredu er mwyn eu cymeradwyo, nid oes storfa ganolog lle y caiff cynlluniau eu hadolygu er mwyn nodi tueddiadau mewn gwersi a ddysgwyd, neu er mwyn darparu argymhellion ehangach ar lefel genedlaethol neu strategol. Dylai Partneriaethau Diogelwch Cymunedol adolygu cynnydd yn erbyn cynlluniau gweithredu yn rheolaidd, ond nid oes tystiolaeth bod hyn yn digwydd fel mater o drefn mewn cyfarfodydd Partneriaeth lleol.

Mae Bwrdd Strategol VAWDASV Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi argymell y dylid cynnwys yr hyn a ddysgir o'r Adolygiadau ar Ddynladdiad Domestig yn y Strategaeth Cyfathrebu VAWDASV Rhanbarthol. Byddai'n fuddiol i'r heddlu

ddarparu cynrychiolaeth uwch gyson ar lefel leol ar baneli Adolygu Dynladdiad Domestig, a sicrhau bod camau gweithredu sy'n deillio ohonynt yn cael eu hymgorffori yn y strwythur llywodraethu a chraffu priodol.

# 4.0 Canlyniadau

**Perfformiad**

Mae'n anodd cael eglurder o ran y data perfformiad sy'n ymwneud â dioddefwyr yn tynnu'n ôl. Mae llawer o'r data yn anghyson neu'n dibynnu ar gynifer o gafeatau fel eu bod yn annibynadwy. Nid yw adroddiadau a ddarparwyd dros amser o reidrwydd yn cyd-fynd nac yn arddangos y data mewn modd cyson ac felly mae gwneud cymariaethau dros amser yn heriol ac yn ddiystyr braidd. Heb hyder yn y data, ni ellir eu defnyddio fel ffynonellau dibynadwy i seilio camau gweithredu ac argymhellion arnynt. Mae hyn hefyd yn arwain at wastraffu adnoddau wrth geisio darparu dealltwriaeth a chyfiawnhad o dueddiadau neu amrywiaethau perfformiad ymddangosiadol o'r darlun cenedlaethol.

Mae cymhlethdodau pellach o ran y trefniadau rhannu data sy'n cyd-fynd â'r wybodaeth hon. Ar hyn o bryd, nid yw'n glir pa ddata y gellir eu rhannu rhwng yr heddlu a SCHTh a'r hyn sydd ar gael i'w gyhoeddi. Mae hyn yn golygu bod craffu gan SCHTh yn arbennig o heriol ac nid yw'n caniatáu tryloywder o ran arddangos perfformiad y Llu.

**Proses, polisi a chanllawiau**

Mae'n hanfodol bod polisi mewnol y Llu yn darparu arweiniad cywir a chyson i swyddogion yn unol â'r canllawiau a ddarperir gan y Swyddfa Gartref. Os nad yw swyddogion yn glir ynghylch diffiniadau, ni chaiff y Canlyniadau eu defnyddio'n gywir nac yn gyson. Mae hyn nid yn unig yn creu problem o ran cydymffurfiaeth ond mae hefyd yn codi cwestiynau o bwys am gywirdeb y data y seilir penderfyniadau ac argymhellion gweithredol arnynt.

Mae ystyriaeth fwy sylfaenol yma ynghylch proses y Llu ar gyfer defnyddio Canlyniadau. Fel y nodir yn yr adroddiad, mae Heddluoedd eraill yng Nghymru yn defnyddio uned ganolog er mwyn sicrhau ansawdd troseddau ac ar gyfer cymhwyso Canlyniadau. Mae'n bosibl y gallai'r gwahaniaeth yn y dull gweithredu esbonio'r amrywiad rhwng perfformiad Dyfed-Powys o'i gymharu â'r ffigurau heddlu cenedlaethol a'r Heddlu Tebycaf.

**Cyswllt â'r dioddefwr**

Mae'n amlwg o'r ymchwil a wnaed ar gyfer yr adroddiad hwn bod lefelau sy'n peri gofid o ddyblygu rhwng adrannau a gwasanaethau o ran pwy sy'n cefnogi ac yn diweddaru dioddefwyr. Mae hyn yn arwain at ddwy senario sydd yr un mor annymunol; naill ai dioddefwr sy'n cael ei adael heb unrhyw gymorth na

gwybodaeth, neu ddioddefwr sy'n cael ei fombardio gyda galwadau ffôn dryslyd gan lu o asiantaethau neu unigolion heb unrhyw eglurder ynghylch rolau a chyfrifoldebau. Mae’n brofiad digon dryslyd i ddioddefwr fynd drwy’r system cyfiawnder troseddol heb ychwanegu haenau ychwanegol o ddyblygu diangen.

**Gwasanaethau cymorth**

Mae'n ddyletswydd ar y Comisiynydd i ddarparu gwasanaethau er mwyn sicrhau bod dioddefwyr yn cael y cymorth priodol yn ystod eu taith cyfiawnder troseddol. Mae dioddefwyr yn fwy tebygol o barhau i gymryd rhan mewn ymchwiliadau os caiff eu hanghenion eu diwallu o ran cael cymorth i ymdopi ac ymadfer ar ôl effaith y drosedd. Mae’n hanfodol felly bod swyddogion rheng flaen yn ymwybodol o’r holl wasanaethau sydd ar gael er mwyn sicrhau bod y cynnig o wasanaeth i ddioddefwyr yn amserol ac yn gywir. Mae angen i ddioddefwyr deimlo bod ganddynt wybodaeth am y gwasanaethau sydd ar gael, a’u bod nhw’n gallu eu defnyddio nid yn unig ar adeg yr adrodd, ond hefyd ar unrhyw adeg yn y dyfodol os dymunant wneud hynny. Hefyd, mae angen i’r Llu fod yn glir ynglŷn â’r llwybr cymorth a gaiff ei gynnig i ddioddefwyr ar bob cam o’u taith cyfiawnder troseddol.

**Iechyd Meddwl**

Mae Iechyd Meddwl yn ymddangos o fewn y ddau brif reswm dros ddioddefwyr yn tynnu’n ôl. Tra bo hyfforddiant ar gyfer Swyddogion a Hyfforddwyd ar gyfer Ymchwilio i Droseddau Rhyw yn cynnwys mewnbwn ar iechyd meddwl a rôl Cynghorwyr Trais Rhywiol Annibynnol, mae yna fwlch sylweddol i ddioddefwyr â phroblemau iechyd meddwl sydd heb gael diagnosis ac sy’n is nag unrhyw drothwyon clinigol o ran ble y gellir eu cyfeirio am gymorth. Mae staff Goleudy wedi tynnu sylw yn ddiweddar at hyfforddiant iechyd meddwl fel blaenoriaeth, yn enwedig yr ymdriniaeth o ddioddefwyr gyda bwriad hunanladdol.

Er gwaethaf buddsoddiad gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu i ddarparu cyfeirlyfr cynhwysfawr i ddioddefwyr, nid yw hwn bellach ar gael ar wefan Goleudy. Mae hyn wedi arwain at fwlch sylweddol i naill ai dioddefwyr neu swyddogion wrth ddod o hyd i wasanaethau cymorth priodol sy’n gallu cynnig eiriolaeth iechyd meddwl. Mae llawer o wasanaethau cymorth ar gael yn ein cymunedau i unrhyw un sydd angen cymorth. Yn dilyn trafodaethau gyda’r Adran Cyfiawnder Troseddol, mae cyswllt â Dewis Cymru bellach ar gael. Dylai hyn fynd beth ffordd tuag at fynd i’r afael â’r bwlch hwn. Byddai darparu'r cymorth hwn nid yn unig yn helpu dioddefwyr i ymdopi'n well ag effaith trosedd ond byddai hefyd yn ei gwneud yn fwy tebygol o barhau i ymwneud â'r system cyfiawnder troseddol.

**Cynlluniau gwaith wedi’u llywio a’u blaenoriaethu**

Mae’n amlwg nad yw’r swyddogaeth Gwelliant Parhaus o fewn y Llu yn cael ei llywio’n ganolog yn unol â blaenoriaethau’r Llu neu’r Strategaeth Reoli. Ymddengys nad yw Canlyniadau’n cael eu llywodraethu, ac felly nid oes unrhyw hyder bod yr argymhellion a nodwyd yn y digwyddiadau hyn yn cael eu defnyddio

ar gyfer llywio'r gwaith o wella gwasanaethau. Mae'r tîm yn ased gwerthfawr o fewn y Llu ac mae'r ymrwymiad gan y tîm a'r holl fynychwyr ym mhob digwyddiad yn amlwg. Fodd bynnag, mae perygl gwirioneddol y caiff adnoddau eu defnyddio'n amhriodol ac amser ac ymdrech eu dyblygu.

Mae adborth anecdotaidd gan fynychwyr yn dangos ymdeimlad o rwystredigaeth ynglŷn â'r diffyg tryloywder ac atebolrwydd o ran y camau a nodwyd yn y digwyddiadau. Un enghraifft berthnasol yw'r ffaith bod yr adolygiad craffu dwys a gynhaliwyd gan y CHTh er mwyn mynd i'r afael â chyffuriau anghyfreithlon ym mis Ebrill 2019 wedi nodi'r un argymhellion ynglŷn â Phrofi Wrth Arestio â digwyddiad gwella parhaus a gynhaliwyd ddwy flynedd ynghynt. Pe byddai'r argymhellion hyn wedi cael sylw, byddai'r adolygiad craffu dwys wedi rhoi darlun gwahanol iawn.

Mae un o'r meysydd presennol i'w gwella yng nghynllun gweithredu AHGTAEM yn ymwneud â chydymffurfiaeth â'r Cod Ymarfer Dioddefwyr ar gyfer ymchwiliadau twyll. Awgrymwyd cynnal arolwg o fodlonrwydd dioddefwyr er mwyn mynd i'r afael â hyn, gyda swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu yn adolygu sampl ar hap o ddioddefwyr bregus a pherthnasau er mwyn cael adborth ar y gwasanaeth a ddarperir. Cynigiwyd y byddai hyn yn dechrau ym mis Awst 2019. Nid yw'r camau a gynigir yn egluro sut y bydd y broses hon yn cyd-fynd â swyddogaethau presennol er mwyn sicrhau cysondeb ac osgoi dyblygu gwaith, ble caiff y canlyniadau hyn eu bwydo'n ôl, a sut y bydd y Llu yn sicrhau y cânt eu defnyddio ar y cyd â gwybodaeth arall er mwyn llywio darpariaeth gwasanaethau.

**Trosolwg Strategol**

Mae'r adroddiad yn nodi bwlch clir o ran trosolwg strategol o brofiadau dioddefwyr. Er bod llawer o'r argymhellion sy'n codi o adolygiadau a digwyddiadau blaenorol yn cyfrannu at gynlluniau gweithredu ar y lefel dactegol neu weithredol, nid yw'n ymddangos bod hyn yn trosi'n hawdd i gynllunio strategol. Mae'r Llu yn gweithredu Cynllun Gweithredu Bregusrwydd sy'n cyfrannu at gynllun gweithredu cenedlaethol Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu (NPCC). Yn gynharach yn 2019, mewn ymateb i Ddyfed-Powys yn dilyn ymarfer meincnodi cenedlaethol, nodwyd bod llawer o waith da yn cael ei wneud, ond bod yna ddiffyg goruchwyliaeth strategol. Er bod materion dioddefwyr yn cael eu trafod gan Fwrdd y Dioddefwyr a'r Tystion a'r Bwrdd Bregusrwydd Strategol, nid yw'r byrddau hyn wedi'u strwythuro mewn ffordd sy'n eu galluogi i lywio blaenoriaethau adrannau, megis Cyfathrebu Corfforaethol, Dysgu a Datblygu ac ati, sy'n hanfodol er mwyn cyflawni'r hyn sy'n ofynnol.

# 5.0 Camau Gweithredu

Ar ôl ystyried y wybodaeth a gafwyd fel rhan o'r adolygiad hwn, mae'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu yn gofyn i'r Prif Gwnstabl ystyried yr argymhellion canlynol:

1. Ystyried adnodd canolog ar gyfer defnyddio a sicrhau ansawdd Canlyniadau troseddau er mwyn sicrhau arfer gyson sy'n unol â'r polisi cenedlaethol
2. Darparu eglurder ynghylch y data a gynhyrchir a sut y gellir eu defnyddio, yn enwedig sut y gellir eu rhannu â SCHTh a chynulleidfaoedd ehangach.
3. Parhau â'r gwaith o leihau ymchwiliadau hirfaith a allai effeithio ar y broses o ymgysylltu â dioddefwyr
4. Archwilio'n rheolaidd y gydymffurfiaeth â gweithdrefnau ymchwilio sy'n debygol o effeithio ar y broses o ymgysylltu â dioddefwyr, gan gynnwys cyfweliadau wedi'u recordio ar fideo, camerâu fideo ar wisgir ar y corff a theledu cylch cyfyng y mae'r CHTh wedi buddsoddi ynddynt ledled ranbarth y Llu
5. Sicrhau bod y llwybr cymorth i ddioddefwyr yn glir, ac y ceir cydsyniad ar y pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer pob atgyfeiriad yn y dyfodol. O fewn hyn, bydd angen:
    a. Sicrhau bod cyfeirlyfr ar gyfer dioddefwyr yn cael ei gynnal ac yn cynnwys gwybodaeth gyfredol i gyfeirio dioddefwyr at asiantaethau sy'n darparu cymorth iechyd meddwl ac eiriolaeth o fewn ein cymunedau
    b. Gwell ymwybyddiaeth i ddioddefwyr, troseddwyr a swyddogion o'r gwasanaeth cymorth sydd ar gael
6. Chwilio'n weithredol am adborth gan y dioddefwyr hynny sydd wedi tynnu'n ôl o ymchwiliadau er mwyn llywio'r gwaith o ddarparu gwasanaethau
7. Adolygu'r holl argymhellion a chamau gweithredu sy'n deillio o'r gwaith presennol o ymgysylltu â dioddefwyr, yn ogystal â darparu diweddariadau yn unol â hynny
8. Sicrhau bod Gwelliant Parhaus o fewn y Llu yn cael ei yrru'n strategol er mwyn cefnogi'r strategaeth reoli a'r Cynllun Heddlu a Throseddu. Dylai hyn gynnwys cronfa ganolog o wybodaeth er mwyn nodi tueddiadau a llywio'r broses o ddarparu gwasanaethau, ynghyd â chanllawiau clir ynghylch cyfrifoldeb ac atebolrwydd ar gyfer argymhellion a ddaw i'r amlwg
9. Sicrhau trosolwg strategol clir o faterion sy'n ymwneud â'r broses o ymgysylltu â dioddefwyr, gan fwrw ymlaen â'r gwaith trawsadrannol sydd ei angen er mwyn rhoi dioddefwyr wrth wraidd y broses o ddarparu gwasanaethau
10. Darparu cynrychiolaeth uwch yn gyson ar lefel leol ar baneli Adolygu Dynladdiad Domestig, a sicrhau bod y camau gweithredu sy'n deillio ohonynt yn cael eu hymgorffori yn y strwythur llywodraethu a chraffu priodol.

# 6.0 Adolygiad

## 6.1 Amcanion

Ceisiodd y corff hwn o waith nodi:

1. A yw defnydd y Llu o Ganlyniadau 14 a 16 ar gyfer troseddau domestig a rhywiol yn unol â thueddiadau cenedlaethol, ac a yw’r sail resymegol dros unrhyw wyriadau o ran perfformiad wedi’i deall a’i derbyn
2. A yw’r defnydd o’r Canlyniadau uchod yn amlygu unrhyw faterion ynghylch ymarfer y Llu neu’r siwrne cyfiawnder troseddol ehangach
3. A yw’r Llu yn defnyddio pob cyfle i sicrhau erlyniadau amserol ac effeithiol
4. Effeithiolrwydd y Llu o ran cadw cefnogaeth dioddefwyr ar gyfer ymchwiliadau
5. I ba raddau y caiff argymhellion o adolygiadau a gomisiynir o fewn y Llu eu monitro a’u llywodraethu
6. I ba raddau y mae Canlyniadau gwelliant parhaus yn ysgogi gwelliant o ran darparu gwasanaethau

Drwy:

1. Nodi polisi presennol y Llu ar gyfer defnyddio Canlyniadau 14 ac 16
2. Nodi’r tueddiadau mewn perfformiad o ran y defnydd o Ganlyniadau, yn lleol ac yn genedlaethol
3. Cynnal adolygiad llenyddiaeth o adroddiadau presennol a digwyddiadau gwelliant parhaus a’r graddau y gweithredwyd ar yr argymhellion
4. Cyflwyno barn dioddefwyr ac effeithiolrwydd y Llu wrth fynd i’r afael â nhw
5. Tynnu sylw at feysydd o arfer dda ac unrhyw feysydd lle y gellid gwneud gwelliannau.

## 6.2 Casgliad

Mae’r adolygiad wedi amlygu nifer o feysydd i’w gwella i’r Llu er mwyn sicrhau ei fod yn darparu’r gwasanaeth gorau posibl er mwyn cadw dioddefwyr yn rhan o’r broses cyfiawnder troseddol. Mae’n amlwg bod dioddefwyr yn flaenoriaeth i’r Prif Gwnstabl ac i Heddlu Dyfed-Powys yn gyffredinol. Fodd bynnag, mae'r adroddiad yn awgrymu nad yw'r Llu, mewn gwirionedd, yn canolbwyntio ar y dioddefwr.

Mae materion yn ymwneud ag eglurdeb polisi’r Llu a chysondeb a chywirdeb y defnydd o Ganlyniadau, yn codi amheuon ynghylch dibynadwyedd y data a ddarperir. Cymhlethir hyn gan y ffaith nad oes proses sicrhau ansawdd na chraffu ar Ganlyniadau ar hyn o bryd. Mae llawer o’r data yn anghyson neu’n dibynnu ar gynifer o gafeatau fel eu bod yn annibynadwy.

Mae dioddefwyr yn ymgysylltu'n dda â gwasanaethau cymorth arbenigol, gyda chofnodion o ddioddefwyr sy'n tynnu'n ôl yn datgelu rhesymau personol yn hytrach nag unrhyw weithgaredd neu segurdod o ran y Llu. Ategir hyn gan y data ar foddhad dioddefwyr, sy'n dangos bod dioddefwyr sy'n tynnu'n ôl yr un mor fodlon â'u profiad â'r rhai sy'n derbyn Canlyniadau eraill.

Mae'r adolygiad yn amlygu rhai tueddiadau diddorol o ran pa asiantaeth sy'n cynnig cymorth, gyda llai o ddioddefwyr cam-drin domestig yn ymgymryd â gwasanaeth Goleudy (17%) o'u cymharu â dioddefwyr pob trosedd y cynigiwyd gwasanaeth iddynt gan Goleudy (85%). Mae cyfraddau derbyn ar gyfer y cynnig o wasanaeth gan asiantaeth gymorth arbenigol fel New Pathways yn 97%, gyda 70% yn ymgysylltu â gwasanaethau IDVA.

Cafodd diffyg ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau cymorth sydd ar gael eu nodi dro ar ôl tro yn ystod yr adolygiad hwn hefyd. Mae hyn er gwaethaf nifer o weithgareddau codi ymwybyddiaeth a gynhaliwyd gan SCHTh mewn perthynas â gwasanaethau a gomisiynwyd, gan gynnwys erthyglau yn y wasg, cyfarfodydd pennu tasgau, bwletinau mewnol a chynhyrchu nodiadau atgoffa ar gyfer swyddogion. Yn amlwg, mae bwlch yn dal i fod o ran gwybodaeth ac ymwybyddiaeth swyddogion. Heb hyn, ni allwn fod yn sicr bod swyddogion yn gwneud cynigion cywir a gwybodus am wasanaeth i ddioddefwyr er mwyn sicrhau'r ymgysylltiad mwyaf posibl.

Mae bwlch pwysig o ran y gwasanaethau cymorth sy'n cael eu cynnig yn ymwneud ag iechyd meddwl. Dangoswyd bod hyn yn ffactor arwyddocaol yn bron yr holl achosion o ddioddefwyr yn tynnu'n ôl o'r ymchwiliad. Fodd bynnag, mae dioddefwyr yn adrodd am orbryder a heriau tebyg sy'n is nag unrhyw drothwy ar gyfer mynediad at wasanaethau iechyd meddwl. Mae nifer o wasanaethau ar gael i gefnogi unigolion yn y maes hwn, gan gynnwys y rhai a ddarperir gan y Samariaid a Mind, ac mae angen i'r Llu sicrhau bod swyddogion a gwasanaethau i ddioddefwyr yn cyfeirio dioddefwyr at yr asiantaethau cymorth priodol.

Mae nifer o adolygiadau a digwyddiadau eisoes wedi'u cynnal wrth i'r Llu geisio deall y broblem o ddioddefwyr yn tynnu'n ôl, gyda goblygiadau sylweddol o ran adnoddau. Ceir rhai tueddiadau allweddol sy'n dod i'r amlwg dros gronoleg yr argymhellion, gyda nifer o adolygiadau'n nodi'r un meysydd i'w gwella ar wahanol adegau. Ymddengys nad oes goruchwyliaeth ganolog o'r argymhellion sy'n deillio o adolygiadau neu ddigwyddiadau o'r fath. Felly, er bod camau gweithredu wedi'u cynnwys mewn cynlluniau gweithredu gweithredol neu dactegol, nid ydynt yn trosi'n flaenoriaethau gwybodus ar draws cynlluniau gwaith adrannol ar lefel strategol er mwyn dylanwadu ar y broses o ddarparu gwasanaethau.

Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu wedi ymrwymo i fonitro cynnydd y Prif Gwnstabl yn erbyn yr argymhellion a nodir yn yr adolygiad hwn drwy roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd yn rheolaidd i'r Bwrdd Plismona.

# Atodiad A – Cyd-destun ychwanegol ar gyfer y cynnydd mewn cofnodi troseddau

Mae’r canlynol wedi cydgyfrannu at gynnydd yn nifer y troseddau a gofnodir:

- Ym mis Ebrill 2014, gwnaeth y fframwaith Canlyniadau newydd ddileu cyfraddau datrys, a oedd yn ei dro yn dileu pwysau ar berfformiad, gan arwain at gofnodi mwy o droseddau.
- Yn dilyn Arolygiad Uniondeb Data Troseddau yn 2014, cynhalwyd ymgyrch sylweddol ar gofnodi troseddau’n gywir a phrosesau.
- Ym mis Rhagfyr 2015, sefydlwyd trosedd newydd, o ‘ymddygiad sy’n rheoli neu’n gorfodi mewn perthynas deuluol agos’, yn groes i Ddeddf Troseddau Difrifol 2015 Adran 76. Cafodd ei gofnodi fel 105A Ymosodiad heb anaf.
- Cyflwynwyd y Tîm Dyrannu Troseddau a Digwyddiadau (ICAT) ym mis Ebrill 2017, gyda chyfrifoldeb am ymchwilio i gategorïau troseddau penodol er mwyn cynorthwyo heddweision rheng flaen. Dilynwyd hyn gan newid yn y broses cofnodi troseddau ym mis Mai 2017.
- Ym mis Ebrill 2018, cyflwynwyd y Ddesg Bregusrwydd ar gyfer adolygu digwyddiadau domestig er mwyn sicrhau bod llyfrynnau Cam-drin Domestig Stelcian ac Aflonyddu (DASH) yn cael eu cofnodi’n gywir.

# Atodiad B – Polisi Canlyniadau Troseddau

Mae'r isod wedi ei gymryd o *ddogfen canllaw Canlyniadau Troseddau Dyfed-Powys a ddiweddarwyd ym mis Ebrill 2019, ac sydd ar gael drwy dudalen Cofrestrydd Troseddau'r Llu.*

Mae'r canllaw yn anghyson, ynddo'i hun, ac nid yw'n cyd-fynd â'r diffiniadau a ddefnyddir yn nogfennau eraill y Swyddfa Gartref. Er enghraifft, mae Tudalen 1 o'r canllaw yn nodi fel a ganlyn:

*Canlyniadau'n cael eu cymhwyso gan Swyddogion drwy'r CMS*
*Canlyniad 14 - Anawsterau tystiolaethol - Yr un dan amheuaeth wedi'i enwi ond DDIM wedi'i adnabod -* ***y dioddefwr ddim yn cefnogi***
*Canlyniad 16 - Anawsterau tystiolaethol - Yr un dan amheuaeth wedi'i enwi -* ***y dioddefwr ddim yn cefnogi***

Mae'r Canlyniadau uchod yn unol â'r bwletin Canlyniadau a ryddhawyd gan y Swyddfa Gartref ym mis Gorffennaf 2019[16]. Fodd bynnag, dywedir yn nogfen ganllaw'r Llu:

| |
|---|
| *Canlyniad 14 Anawsterau Tystiolaethol (wedi'u seilio ar y dioddefwr) - Yr un dan amheuaeth DDIM wedi'i adnabod*<br><br>*Mae'r drosedd wedi'i chadarnhau ond mae'r* ***dioddefwr naill ai'n gwrthod neu ddim yn gallu cefnogi ymchwiliad pellach gan yr heddlu*** *er mwyn adnabod y troseddwr* |

*Os yw'r dioddefwr yn ceisio'n aflwyddiannus i adnabod y rhai dan amheuaeth ac os na ellir eu hadnabod drwy ddulliau eraill, dylid ystyried math arall o Ganlyniad. Gellir defnyddio'r Canlyniad hwn hefyd os yw'r un dan amheuaeth yn cael ei adnabod drwy lysenw'n unig, ond na ellir ei adnabod yn llawn.*

*Os bydd y dioddefwr yn gwrthod adnabod yr un dan amheuaeth, dylid cael cofnod mewn llyfr nodiadau wedi'i lofnodi neu ddatganiad gan y dioddefwr lle bo hynny'n bosibl.*

*Os bydd y dioddefwr yn gwrthod cwblhau datganiad neu lofnodi cofnod mewn llyfr nodiadau, dylid cynnwys hyn yn rhesymeg y penderfyniad.*

- *Dogfennu'r rhesymau pam fod camau pellach yn cael eu hatal yn Ymholiadau'r CMS.*
- *Sganio unrhyw ddogfennau ategol sy'n dogfennu bod y dioddefwr wedi gwrthod neu'n methu â chefnogi ymchwiliad pellach ar y CMS.*

[16] Crime Outcomes in England and Wales: year ending March 2019. Statistical Bulletin HOSB 12/19

*Canlyniad 16 Anawsterau tystiolaethol - yn seiliedig ar y dioddefwr*

*Unigolyn wedi'i enwi a'i adnabod ond nid yw'r **dioddefwr yn cefnogi (neu mae wedi tynnu cefnogaeth yn ôl ar gyfer) camau gweithredu gan yr heddlu.***

*Byddai'r Canlyniad hwn yn cael ei ddefnyddio lle bo Gwasanaeth Erlyn y Goron yn penderfynu, er gwaethaf y ffaith bod unigolyn wedi'i enwi, nad oes digon o gyfle tystiolaethol er mwyn sicrhau gobaith realistig o euogfarn. Mae hyn yn cynnwys troseddau lle nad yw'r dioddefwr yn cefnogi camau'r Heddlu o'r cyswllt cyntaf (ond bod yr un dan amheuaeth wedi'i enwi) a lle y rhoddir cymorth i ddechrau ond y'i tynnir yn ôl yn ddiweddarach.*

*Mewn rhai amgylchiadau, gellir erlyn heb i'r dioddefwr gefnogi'r erlyniad e.e. troseddau difrifol a digwyddiadau domestig. Os yw hyn yn wir, dylid defnyddio math arall o Ganlyniad fel y bo'n briodol.*

*Os yw'r dioddefwr yn gwrthod cefnogi camau'r heddlu, dylid cael cofnod mewn llyfr nodiadau wedi'i lofnodi neu ddatganiad gan y dioddefwr lle bo hynny'n bosibl.*

*Os bydd y dioddefwr yn gwrthod cwblhau datganiad neu lofnodi cofnod mewn llyfr nodiadau, dylid cynnwys hyn yn rhesymeg y penderfyniad.*

- *Sicrhau bod cofnod unigolyn dan amheuaeth sydd wedi'i adnabod neu wedi'i enwi ynghlwm wrth y cofnod trosedd (cysylltu â'r CRB i'w ddiweddaru os oes angen).*
- *Dogfennu'r rhesymau pam fod camau pellach yn cael eu hatal yn ymholiadau'r CMS.*
- *Sganio unrhyw ddogfennau ategol sy'n dogfennu bod y dioddefwr wedi gwrthod rhoi neu dynnu cefnogaeth yn ôl o ymchwiliad i'r CMS.*
- *Os yw'r dioddefwr yn gwrthod cwblhau datganiad neu gofnod mewn llyfr nodiadau, dylid cadarnhau hyn yn y CMS.*

Mae'r disgrifiadau a geir yn y blychau uchod yn cyd-fynd â'r canllawiau gwreiddiol a ddarparwyd gan y Swyddfa Gartref[17] pan sefydlwyd y fframwaith Canlyniadau yn 2014. Dyma hefyd y diffiniadau a ddefnyddir yn iQuanta.

Ar offeryn rheoli perfformiad y Llu, sef Qlikview, ceir y disgrifiadau isod o'r Canlyniadau:

- Canlyniad 14 dioddefwr yn gwrthod/methu â chefnogi camau gweithredu
- Canlyniad 16 nid yw'r dioddefwr yn cefnogi (neu mae wedi tynnu cefnogaeth yn ôl)

[17] Crime Outcomes in England and Wales 2014/15 Statistical Bulletin 01/15

# Atodiad C – Argymhellion a materion sy'n codi o adolygiadau sy'n bodoli eisoes

| Adolygiad | Awdur / Noddwr | Dyddiad | Argymhellion / Materion a nodwyd | Diweddariad |
|---|---|---|---|---|
| Taith y dioddefwr 2 Ddigwyddiadau Gwelliant Parhaus, ynghyd â thaith benodol dioddefwyr cam-drin domestig | Ditectif Brif Uwch-arolygydd yr Adran Ymchwilio i Droseddau a Chyfarwyddwr Cynorthwyol Cyfiawnder Troseddol | Mawrth 2016 | 1. Heddlu Dyfed-Powys i sefydlu blwch post canolog ar gyfer ceisiadau amddiffyn er mwyn i bob hysbysiad gael ei dderbyn mewn un lle. Heddlu Dyfed-Powys i hysbysu Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS) o bob cais. Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd ei Mawrhydi (HMCTS) i sicrhau cydymffurfiaeth briodol â Rheolau Trefniadaeth Droseddol. Cynrychiolwyr amddiffyn ar y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol (LCJB) a'r Grŵp Perfformiad Cyfiawnder Diannod er mwyn sicrhau bod yr holl Gyfreithwyr Amddiffyn yn ymwybodol o'r mater a'r ateb arfaethedig.<br>2. Troseddau rhyw i gael eu cyfeirio'n awtomatig at New Pathways gan yr heddlu ar yr adeg y bydd yr heddlu yn cael gwybod amdanynt.<br>3. Codi ymwybyddiaeth swyddogion o bwysigrwydd hysbysu Cynghorwyr Troseddau Rhyw Annibynnol o achosion sydd â Dim Camau Pellach<br>4. Diffyg gwybodaeth am yr asesiad risg a gynhaliwyd ar gyfer Cyfiawnder Adferol - y broses i gael ei hadolygu<br>5. Hysbysu staff yr Uned Gofal Tystion y dylai HMCTS gael eu copïo i mewn i negeseuon e-bost. Diwygio'r llythyr sy'n cyflwyno Gwasanaeth Tystion Cyngor ar Bopeth (CAWS) i'w wneud yn fwy eglur gyda phwy y dylid cysylltu. | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | 6. Dim digon o ymweliadau cyn prawf yn cael eu trefnu. Potensial o dalu treuliau ar gyfer ymweliadau cyn prawf.<br>7. Dylai'r angen am i ofynion anghenion arbennig gael eu hystyried gael ei gynnwys yn hyfforddiant bob swyddog ynglŷn â mesurau arbennig a bregusrwydd.<br>8. Gwasanaeth Erlyn y Goron i ystyried y potensial o gynnwys gwybodaeth am dâl i CAWS<br>9. Gall gwybodaeth a roddir i ddioddefwr ynglŷn â chyswllt fideo achosi dryswch Hyfforddiant yn cael ei roi i swyddogion. Mae Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi cynnig cymorth gyda hyn.<br>10. Cyfeirio pobl at y wefan Cwtsh Cymorth y gellir ei diweddaru'n gyson.<br>11. Ystyried y posibilrwydd o lythyron wedi'u personoli er mwyn cynyddu hunan-atgyfeiriadau Cyfiawnder Adferol<br>12. Y Gwasanaeth Prawf a Gofal Tystion i gytuno ar y dull atgyfeirio gorau ar gyfer dioddefwyr sydd angen cymorth cyswllt dioddefwyr.<br>13. Canlyniadau hwyr ar gyfer Troseddwyr Remand (4.30yp ddydd Gwener) - y Gwasanaeth Prawf i edrych ar nifer y digwyddiadau.<br>14. Dyletswydd Iechyd Meddwl i Ddioddefwyr a Phartneriaid (Cynllun Cyswllt Dioddefwyr) - beth yw nifer yr achosion y mae hyn yn effeithio arnynt o fewn Heddlu Dyfed-Powys<br>15. Gwasanaeth Erlyn y Goron/ HMCTS i edrych ar pam nad yw rhai gorchmynion atal yn cael eu hanfon ymlaen at y gwasanaeth gofal tystion<br>16. Mae angen mwy o sgyrsiau gyda chyfreithwyr ynghylch rhyddhau tystion.<br>17. Meini prawf Cyfiawnder Adferol - rhy anhyblyg ac yn cyfyngu ar nifer yr hunan-atgyfeiriadau? SCHTh i edrych ar y posibilrwydd o ehangu'r meini prawf.<br>18. Ailadrodd i swyddogion bod angen diweddaru'r System Troseddau pan mae dioddefwr wedi derbyn diweddariad. A oes datrysiad TG? | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | 19. Gorchmynion Atal. Defnyddio geiriad y Gorchymyn Atal a ysgrifennwyd gan y Barnwr Rhanbarth, Richard Williams.<br>20. Arian gwŷs a chostau teithio er mwyn i ddioddefwyr / tystion fynd i'r llys. Ystyried dychwelyd i drefnu cludiant ar gyfer y tyst yn hytrach na darparu costau teithio. Ni ddarperir costau teithio gan luoedd allanol ar hyn o bryd.<br>21. Cyfrifoldeb am y dioddefwr yn ystod y prawf. Angen protocol ynghylch y gwahanol gyfrifoldebau ar gyfer rolau amrywiol | |
| Mewnwelediadau gan ddioddefwyr | Prifysgol De Cymru | 2016 | 1. Dylai'r gefnogaeth a roddir gan deulu a ffrindiau a oedd yn ymwybodol o gyhuddiadau'r dioddefwr gael eu cydnabod gan asiantaethau'r System Cyfiawnder Troseddol a dylai teuluoedd a ffrindiau gael eu hannog i sicrhau bod y dioddefwr yn adrodd am y mater.<br>2. O ran yr heddlu, dylid atgoffa swyddogion y dylid trin achwynwyr blaenorol fel petaent yn ddioddefwyr am y tro cyntaf, a thrwy hynny osgoi'r feirniadaeth ynghylch yr heddlu'n siapio'u canfyddiadau o ddioddefwyr.<br>3. Dylai'r heddlu dynnu sylw at y ffaith bod dioddefwyr wedi dweud y bydden nhw (yr heddlu) yn eu credu er mwyn annog eraill i wneud yr un peth.<br>4. Dylai'r gefnogaeth a roddir gan deulu a ffrindiau oedd yn ymwybodol o gyhuddiadau'r dioddefwyr gael eu cydnabod gan asiantaethau'r System Cyfiawnder Troseddol a dylai teuluoedd a ffrindiau gael eu hannog i sicrhau bod y dioddefwr yn adrodd am y mater.<br>5. Efallai bod yr orddibyniaeth ar ddylanwad y cyfryngau er mwyn annog pobl i adrodd am ddigwyddiadau o'r fath drwy gyhoeddi achosion proffil uchel yn gyfeiliornus. Efallai y byddai'n well defnyddio'r cyfryngau i annog teuluoedd i gefnogi'r adrodd am droseddau o'r fath.<br>6. Ar y pwynt cyswllt cyntaf, dylai'r heddlu fod yn ymwybodol o natur sensitif y digwyddiad a thrin y | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | dioddefwr gyda phob dyledus barch. Dylid defnyddio arbenigwyr cyn gynted â phosibl yn y fan a'r lle er mwyn lleihau'r feirniadaeth ar ymatebwyr cyntaf. Mae hyn yn cynnwys staff o New Pathways.<br>7. Yn yr un modd, dylid rhoi gwybodaeth i'r dioddefwr neu wybodaeth am y 'daith' sydd angen ei chyflawni o fewn y System Cyfiawnder Troseddol cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol. Bydd hyn yn rheoli canfyddiadau'r unigolyn ac yn helpu i osgoi unrhyw wrthdaro yn y dyfodol.<br>8. Dylid egluro rôl Gwasanaeth Erlyn y Goron a'r llysoedd yn glir i ddioddefwyr sy'n cael trafferth gwahaniaethu rhwng swyddogaethau'r ddwy asiantaeth. Roedd llawer o'r feirniadaeth o'r weithdrefn gyfan wedi'i chyfeirio at y ddwy asiantaeth hyn.<br>9. Dylai polisi sicrhau bod yna weithdrefn bartneriaeth glir a chyson ar gyfer delio â dioddefwyr troseddau o'r fath, gan gynnwys dealltwriaeth o rôl asiantaethau gwahanol, a lle y dylid eu cyflwyno i'r weithdrefn er budd y dioddefwr. | |
| Adolygiad o Ganlyniad 16 | Tîm Cydweithredu ac Effeithiolrwydd | Medi 2017 | 1. Nid oedd swyddogion bob amser yn gwneud ymholiadau llawn i gefnogi'r ymchwiliad. Er enghraifft, a yw'r camera fideo ar gorff yn cael ei ddefnyddio ar bob cyfle?<br>2. Nid oedd llyfrau nodiadau poced bob amser yn cael eu llofnodi gan y dioddefwr yn cadarnhau nad oeddynt yn dymuno cefnogi'r ymchwiliad.<br>3. Goruchwylwyr ddim yn herio rhai o'r penderfyniadau ymchwiliol (neu ddiffyg hynny) gan eu staff - a yw erlyniadau heb ddioddefwr yn cael eu nodi lle bo'n briodol?<br>4. Diffyg cyfeirio at asiantaethau cymorth<br>5. Gwaith ddim yn cael ei ailddyrannu pan fo'n briodol - dioddefwr yn cael ei ddadrithio<br>6. Cyfweliad Gwirfoddol yn hytrach nag arestio - a yw hyn yn golygu amseroedd aros hirach er mwyn i'r un dan | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | amheuaeth gael cyfweliad, gan arwain at oedi o ran erlyniad<br>7. Oedi yn yr Ymchwiliad | |
| Digwyddiad Gwelliant Parhaus ar Foddhad Dioddefwyr | Yr Uwch-arolygydd sy'n dal y portffolio | Medi 2017 | 1. Angen storfa ganolog i gasglu'r holl wybodaeth adborth: adborth drwy wahanol ddulliau<br>1. Rhoi caniatâd i Ganolfan Reoli'r Llu ddiweddaru'r System Rheoli Troseddau - dim ond mewn rhai amgylchiadau<br>2. Mae angen egluro'r adnoddau sydd ar gael yn llawn wrth Ganolfan Reoli'r Llu/swyddogion e.e. Olrhain fy Nhrosedd, angen mwy o hyrwyddo<br>3. Pwysau ar drafodwyr galwadau i ateb cymaint o alwadau'n gyflym ag y bo modd, gan achosi problemau cywirdeb data<br>4. Mae cwestiynau am ganiatâd dioddefwyr ar Derfynellau Data Symudol yn ddryslyd. Gwybodaeth anghyflawn yn mynd i Goleudy<br>5. Diffyg diweddariadau i ddioddefwyr yw'r prif achos anfodlonrwydd. Sicrhau bod dioddefwyr yn cael eu diweddaru fel a phan y cytunwyd hynny<br>6. Gofalwn (We Care) - a ydym yn parhau â hyn? Mae angen arweiniad ynghylch y fenter Gofalwn: Pryd y dylid ei gyhoeddi? Pa bwynt yn ystod yr ymchwiliad? I bwy?<br>7. Gormod o wybodaeth i'w darparu (taflenni) e.e. taflen dioddefwyr troseddau, cerdyn Gofalwn<br>8. Adferiad gwasanaeth yn aneglur - angen mwy o eglurder ynglŷn â phwy ddylai ymdrin â phroblem. Y Biwro Gwasanaethau Cyhoeddus yn gweithio oriau swyddfa'r – ble dylid cwyno ar ôl 6yh?<br>9. Diweddaru dioddefwr drwy'r system rheoli gwaith ar-lein ddim yn gweithio. Angen diwygio'r system ar gyfer goruchwylwyr<br>10. Nid yw ymatebion testun rhydd yn cael eu dadansoddi ar hyn o bryd. Colli gwybodaeth a chyd-destun gwerthfawr | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Troseddau Rhyw (plant) | Yr Uwch-arolygydd sy'n dal y portffolio | Tachwedd 2017 | 1. Angen datblygu polisi Presenoldeb Cyntaf er mwyn mynd i'r afael â'r diffyg eglurder ynglŷn ag i bwy mae digwyddiad yn cael ei ddosrannu, creu atgyfeiriadau diogelu ac ati.<br>2. Adborth i'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol ynghylch amseroldeb gwybodaeth a ddarperir gan rai partneriaid e.e. addysg neu iechyd<br>3. Materion yn ymwneud â darparu gwasanaeth paediatrig ar gyfer archwiliadau meddygol - cyfrannu at gyfarfodydd y Ganolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhyw (SARC) a chwestiynu'r gofrestr risg:<br>• Plentyn yn gorfod teithio i Abertawe/Caerdydd i Ganolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhyw.<br>• Diffyg arian ar gyfer Canolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhyw mewn ardaloedd gwledig.<br>• Amser teithio ar gyfer Paediatregydd neu Archwilydd Meddygol Fforensig (FME). Efallai y byddant oriau i ffwrdd a gallai'r archwiliad gael ei ohirio tan y diwrnod wedyn.<br>• Os oes angen archwiliad meddygol ar yr un dan amheuaeth yn y ddalfa a'r dioddefwr, nid oes gan Heddlu Dyfed-Powys ddigon o Archwilwyr Meddygol Fforensig i ddelio â'r ddau.<br>4. Hyfforddiant yr Adran Ymchwilio i Droseddau i fynd i'r Grŵp Llywio Trais Rhywiol. Mae gwelliannau posibl eraill yn cynnwys:<br>• Hyfforddiant Llyfryn Effaith Tystion i recriwtiaid newydd<br>• Diwrnodau hyfforddi ar gyfer swyddogion sefydledig, yn enwedig swyddogion ymateb.<br>• Diwrnodau hyfforddi'r hyfforddwr gan ddefnyddio hyfforddwr arbenigol<br>• Cyfathrebu<br>5. Bwydo awgrymiadau ynglŷn â chydweithio/hyfforddi i'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae gwelliannau posibl eraill yn cynnwys: | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | • Eglurder neu arweiniad ynglŷn â pha gymorth sydd ar gael i'r plentyn.<br>• Hyfforddiant ar y cyd ar gyfer yr Uned Ymchwilio ar y Cyd / Amddiffyn Pobl Fregus a gweithwyr cymdeithasol er mwyn helpu i feithrin perthynas.<br>6. Mae angen egluro'r polisi ynghylch defnyddio Cyfryngwyr.<br>7. Cyfrannu at gyfarfodydd Grŵp Llywio Trais Rhywiol a Chyfarfodydd Cyfweliadau ar Fideo gyda llysoedd i edrych ar yr arfer orau a'r hyn a aeth o'i le.<br>8. Sefydlu grwpiau e-bost o arbenigwyr i rannu arferion gorau.<br>9. Mae gwelliannau posibl eraill yn cynnwys:<br>• Hyfforddiant gloywi wrth gynllunio ar gyfer cyfwelwyr arbenigol.<br>• Cefnogwyr plant i fod ar gael ar gyfer y cyfweliad ar fideo.<br>• Cynllunio a pharatoi hyfforddiant/hyfforddiant gloywi<br>• Cynllunio ar gyfer cyfweliad - paratoi'r ystafell a phenderfynu ar y ffordd orau ymlaen<br>• Gwneud gwell ddefnydd o Gynghorwyr Cyfweld ar gyfer achosion cymhleth. Rhoi cyhoeddusrwydd ynglŷn â phwy ydynt.<br>• Hyfforddiant arfer orau<br>• Monitrau - hyfforddiant ar yr offer ar gyfer yr holl swyddogion a chanllawiau wedi'u diffinio'n glir ar rôl monitorau.<br>• Offer - clustffonau ar gyfer cyfathrebu gyda monitorau.<br>• Adolygu'r ystafell gyfweld - rhestr wirio ar gyfer anghenion gofalu<br>10. Bwrdd Dioddefwyr i ystyried atebion: Mae angen eglurder ynglŷn â chymorth ac atgyfeiriadau, darlun clir o bwy sy'n darparu pa gymorth a pham. | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | • Dim eglurder ynghylch pwy yw'r prif gymorth i blant yn ystod pob cam<br>• Nid yw Goleudy bob amser yn ymwybodol o bwy arall sy'n cefnogi'r plentyn.<br>• Nid yw swyddogion bob amser yn ymwybodol o ba gymorth sydd ar gael i'r plentyn.<br>• Nid oes gan Goleudy swyddog wedi'i hyfforddi ar gyfer plant.<br>• Cwestiynu a yw'n cael ei esbonio i'r plentyn/rhieni pwy sy'n darparu pa gymorth.<br>• Yn aml, meddygon teulu sy'n atgyfeirio dioddefwyr ifanc am gymorth ac yn aml nid yw'r meddygon yn gwybod at bwy y dylid eu cyfeirio.<br>• Nid oes rhwymedigaeth statudol ar unrhyw sefydliad penodol i ariannu cwnsela.<br>11. Datrysiad TG ar gyfer Case Prep / Digital Portal i dynnu sylw at ddioddefwr sy'n blentyn ac i anfon hysbysiadau at Gynghorwyr Cyn Cyhuddo.<br>12. Ailgyflwyno cyfnod mewn uned Trais a Throseddau Rhyw Difrifol ar gyfer Ditectif Arolygwyr newydd.<br>13. Bwrdd Cyfiawnder Troseddol i drafod gwarediadau y tu allan i'r llys ('plentyn ar blentyn') trwy'r broses Biwro. Os nad yw'n addas, sut rydym yn sicrhau cyfle i gefnogi dioddefwyr?<br>14. Bwrdd Cyfiawnder Troseddol i drafod terfynau amser 'ar ôl cyhuddo' ar gyfer cwblhau ceisiadau am ragor o waith. Mae yna derfyn o 14 diwrnod ar gyfer darparu deunydd ychwanegol (mae'r Swyddog Achos yn cael saith diwrnod) sydd â goblygiadau i'r Farnwriaeth yn nes ymlaen.<br>15. Bwrdd Diogelu Rhanbarthol i drafod effaith newidiadau i'r trefniadau mechnïaeth a'r goblygiadau ar gyfer diogelu. | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Adolygiad o Ganlyniad 16 | Tîm Perfformiad a Llywodraethu | Medi 2018 | 1. Drwy gyfrwng archwiliad ar gofnodion troseddau, argymhellir y dylid ymchwilio i'r defnydd a wneir o Ganlyniad 16 er mwyn deall yn llawn y mecanwaith sy'n gysylltiedig â'r defnydd aml sydd ohono.<br>2. Er y gall perthynas gydberthynol groes fodoli rhwng y lefelau o Ganlyniad 16: *nid yw'r dioddefwr yn cefnogi (neu mae wedi tynnu cefnogaeth yn ôl)* a Chanlyniad 18: *Yr un dan amheuaeth ddim wedi'i adnabod,* mae angen ymchwiliad pellach i archwilio'r cysylltiad hwn ymhellach. | |
| Adolygiad o Drais a Throseddau Rhyw Difrifol | Tîm Perfformiad a Llywodraethu | Medi 2018 | 1. Dylid cynnal digwyddiad gwelliant parhaus aml-asiantaeth sy'n canolbwyntio ar y broses 'o'r dechrau i'r diwedd' er mwyn i bob parti ddeall ei rôl yn yr oedi ac i sbarduno gwelliannau<br>2. Dylid comisiynu adolygiad o brosesau gwaith o fewn yr Uned Cyfathrebu Digidol a Seiberdroseddu (DCCU) mewn ymgais i leihau'r amser sylweddol a gymerir yn y prosesau cyflwyno a dadansoddi.<br>3. Dylid dechrau adolygiad o'r gofynion ar y DCCU cyn diwedd 2019 er mwyn deall yn iawn y llwythi gwaith o fewn yr uned, sut y gellid eu lliniaru a materion a ddylai gyfrannu at Ddatganiad Rheoli'r Llu yn 2019. | |
| Adolygiad o Ganlyniad 16 | Diane Davies | Tachwedd 2018 | 1. Rheolwr perfformiad i ystyried a ddylai staff Canolfan Reoli'r Llu ddatblygu sgiliau holi gan ddefnyddio cwestiynau mwy agored.<br>2. Staff Canolfan Reoli'r Llu i ddatblygu'r elfen ymchwilio THRIVES i gynnwys y broses o ganfod a chadw tystiolaeth yn gynnar.<br>3. Staff Canolfan Reoli'r Llu i sicrhau bod manylion cywir y dioddefwr yn cael eu casglu ar Storm, yn enwedig pan fo rhiant yn gwneud adroddiad 3ydd parti ar ran plentyn.<br>4. Cofrestrydd Digwyddiadau Troseddu'r Llu i ddiweddaru polisi ar ofynion ar gyfer cytuno'n derfynol ar Ganlyniad 16 | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | 5. Cofrestrydd Digwyddiadau Troseddu'r Llu i greu taflen atgoffa un dudalen ar gyfer staff yn crynhoi pob Canlyniad sydd ar gael.<br>6. Cofrestrydd Digwyddiadau Troseddu'r Llu i ddarparu hyfforddiant ac ymwybyddiaeth bwrpasol o Ganlyniadau i Hyrwyddwyr Cywirdeb Data Troseddau.<br>7. Hyrwyddwyr Cywirdeb Data Troseddau i ledaenu ymwybyddiaeth o Ganlyniadau ac yn arbennig y neges allweddol nad oes "Canlyniad a ffefrir".<br>8. Hyrwyddwyr Cywirdeb Data Troseddau i nodi ac ymateb i unrhyw brosesau mewnol neu rwystrau i'r defnydd cywir a chyson o Ganlyniadau.<br>9. Y Bwrdd Perfformiad a Chanlyniadau i fonitro data Canlyniadau a gweithredu unrhyw duedd sy'n awgrymu anomaledd posibl.<br>10. Arweinydd y Cod Ymarfer Dioddefwyr i ddatblygu cynllun gweithredu ar gyfer gwella perfformiad.<br>11. THRIVES i gael eu hystyried ar Ddadansoddiad o Anghenion Hyfforddi'r Llu a blaenoriaethu hyfforddiant.<br>12. Polisi Cofnodi ac Ymchwilio Troseddau i gynnwys disgwyliad y bydd yr heddlu yn gweld enwau'r rhai dan amheuaeth, a bod gofyn cofnodi rhesymegau ar gyfer eithriadau i hyn.<br>13. Ystyried datblygu Grŵp Gorchwyl a Gorffen Archwilio ar y Cyd aml-asiantaethol i adolygu setiau sampl o achosion o ddigwyddiadau domestig, yn enwedig pan fo plentyn ar yr aelwyd.<br>14. Y Grŵp Defnyddwyr Cofnodi Troseddau i ystyried Grŵp Gorchwyl a Gorffen i archwilio a deall achosion uchel o gofnodion sgerbwd o ganlyniad i Droseddau Domestig, ac i leihau'r fiwrocratiaeth a briodolir i hynny.<br>15. Ystyried tab Qlikview i dynnu sylw at achosion agored sydd dros chwe wythnos oed er mwyn eu codi mewn Cyfarfodydd Rheoli Dyddiol<br>16. Cyfarfodydd Perfformiad Lleol i ystyried achosion sydd wedi bod ar agor ers dros dri mis | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | 17. Cynrychiolydd o'r Uned Amddiffyn Pobl Fregus i drafod gyda'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol, CYSUR, a chytuno ar brotocol ar gyfer gweithgarwch rhywiol sy'n cynnwys plant a phobl ifanc dros 13 a than 16 oed. | |
| Adolygiad o Droseddau Rhyw | Tîm Perfformiad a Llywodraethu | Ionawr 2019 | Ni wnaed unrhyw argymhellion. Mae'r prif ganfyddiadau'n cynnwys amlder iechyd meddwl fel rheswm dros ddioddefwyr yn tynnu'n ôl. | |
| Cam-drin domestig | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Cyfiawnder Troseddol | Ionawr 2019 | 1. Ni chwblhawyd y cwestiynau gorfodol i Goleudy gan swyddog - y cwestiwn i gael ei adolygu, angen awdurdodiad.<br>2. Cyflwyniad Ansawdd Cam-drin Domestig, Stelcian ac Aflonyddu (DASH) - cael sylw drwy'r Adolygiad Cam-drin Domestig<br>3. Mater yn ymwneud â phost diogel. Nid yw'r holl atgyfeiriadau Cam-drin Domestig yn cyrraedd y Cynghorwyr Trais Domestig Annibynnol - y post cyfreithiol wedi'i ddiweddaru<br>4. Dyblygu posibl rhwng Goleudy, yr Adran Ymchwilio i Droseddau, Swyddogion Cam-drin Domestig ac ati mewn perthynas ag atgyfeiriadau i'r Uned Plismona Bro<br>5. Mae'r amser a gymerir o'r gŵyn i'r cyhuddiad yn effeithio ar ddioddefwyr ac ar asiantaethau cymorth i ddioddefwyr - cyngor yn gynnar yn ystod ymchwiliad ac ymyrraeth gynnar gan yr Uned Gyfathrebu Digidol a Seiberdroseddu<br>6. Mae CPS Direct yn camgynghori swyddogion y dylent wneud penderfyniad rhybuddio heb gyfeirio at CPS Direct yn gyntaf – datrys hyn drwy Ganllawiau'r Cyfarwyddwyr ar Gyhuddo.<br>7. Cynlluniau Gweithredu Gwasanaeth Erlyn y Goron - nid yw pob pwynt yn cael ei weithredu gan y swyddog – Y cynllun ar waith, cydymffurfiaeth yn cael ei fonitro | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | 8. Nid yw'r holl rifau diogel yn cael eu tynnu o'r Terfynellau Data Symudol a'u rhoi ar y System Rheoli Troseddau. Amcangyfrifir mai dim ond 50% o'r data sy'n cael eu tynnu drwodd. Mae TG yn gweithio ar ddatrysiad<br>9. Lle cafwyd ymholiadau hirfaith, nid yw asiantaethau cefnogi na Swyddogion Cam-drin Domestig yn cael eu diweddaru'n awtomatig pan fo Dim Camau Pellach / Rhybudd yn cael ei weithredu – cwestiynu'r broses awtomatig o Gyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu<br>10. Mae dryswch ynghylch pwy sy'n gyfrifol am ddiweddaru'r dioddefwr, gan arwain at nifer o asiantaethau'n cysylltu â'r dioddefwr<br>11. Ffeil Gwasanaeth Erlyn y Goron - nid yw dyddiadau adolygu bob amser yn cael eu bodloni. Oedi hir cyn cael cyngor ynghylch: Mesurau Arbennig - Gwasanaeth Erlyn y Goron i flaenoriaethu hyn<br>12. Gofyniad post - pryderon i'r dioddefwr ynghylch diogelu – Adolygu'r broses a llythyron<br>13. Ceisiadau hwyr gan Wasanaeth Erlyn y Goron i'r Uned Gofal Tystion yn rhybuddio dioddefwyr bod angen iddynt fynd i'r llys. Nid yw hyn yn rhoi digon o amser i'r Uned Gofal Tystion gael gafael ar y dioddefwr a gwneud y trefniadau angenrheidiol.<br>14. Nid yw Cynghorwyr Trais Domestig Annibynnol Sir Benfro/Ceredigion bellach yn derbyn diweddariadau ynghylch achosion Risg Uchel yn y Llys - yr Uned Gofal Tystion i ddatrys hyn<br>15. Y camddefnydd o Gynghorwyr Trais Domestig Annibynnol gan yr Amddiffyniad a'r Erlyniad i gael ei ddatrys drwy Lys Trais Domestig Arbenigol.<br>16. Llys Ynadon Hwlffordd - materion yn ymwneud â'i gynllun. I'w hystyried gan Lys Trais Domestig Arbenigol<br>17. Defnydd dioddefwyr o Gyswllt Fideo neu sgriniau yn y llys - swyddogion i esbonio i ddioddefwyr drwy Fesurau Arbennig | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | 18. Cyflymder diweddariadau i'r dioddefwr. Mae dioddefwyr weithiau'n gweld y canlyniad ar y cyfryngau cymdeithasol cyn derbyn y diweddariad swyddogol. Llys agored - dim rheolaeth dros y rhai sy'n mynychu<br>19. Nid yw Canlyniadau llysoedd remand ar ddydd Sadwrn yn cael eu derbyn gan yr Uned Gofal Tystion tan ddydd Llun: Un Pwynt Cyswllt i gael ei nodi yn yr Ystafell Reoli<br>20. Prosesau ynglŷn â dedfrydu. Yr Adran Cyfiawnder Troseddol i adrodd yn ôl i'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol<br>21. Gorchymyn Atal: Weithiau, nid yw'r dioddefwr yn derbyn copi - y llysoedd i ddarparu diweddariad | |
| Mapio'r broses cam-drin domestig | Swyddogion arweiniol yr Adolygiad Cam-drin Domestig | Mai 2019 | 1. Adolygu nifer y ffurflenni Cam-drin Domestig, Stelcio ac Aflonyddu (DASH) sy'n dod i mewn gan drydydd parti a'r wybodaeth sydd ar goll, gan nad yw DASH wedi'u cofnodi yn fewnol a'u cysylltu â Throsedd<br>2. Ystyried materion yn ymwneud ag Uniondeb Data Troseddau<br>3. Gweld a oes unrhyw synergedd rhwng y ganolfan bregusrwydd a'r Uned Cofnodi Troseddau/ y Gynhadledd Asesu Risg Aml-asiantaeth (MARAC)<br>4. Gwirio i weld a yw rhywfaint o wybodaeth dioddefwyr cam-drin domestig/dioddefwyr eildro ar goll gan Fiwro Cudd-wybodaeth yr Heddlu (FIB)<br>5. Y Tîm Archwilio Troseddau i edrych ar newidiadau i godau agor<br>6. Cofrestrydd Troseddau'r Llu i roi manylion am yr archwiliadau h.y. pa feysydd sydd wedi'u harchwilio<br>7. Y Tîm Archwilio Troseddau i edrych ar y capasiti ar gyfer cynyddu archwiliadau<br>8. Mae angen esbonio i swyddogion y broses o gael gwybodaeth gan y ddesg Cam-drin Domestig a'r oedi posibl y gallent ei wynebu. | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | 9. Cyfathrebu ynghylch eglurder am gyfrifoldebau rhwng desgiau amrywiol (arfau tanio, cudd-wybodaeth, Biwro Cudd-wybodaeth yr Heddlu)<br>10. Cytundeb rhannu gwybodaeth gyda'r Gwasanaeth Prawf; rhannu cudd-wybodaeth, marcwyr ac ati.<br>11. Adolygu a mireinio'r ddogfen friffio, penderfynu pa wybodaeth sydd ei hangen ar gyfer Gwasanaeth Erlyn y Goron o'r pecyn briffio<br>12. Y ddesg i ddweud wrth swyddogion os oes yna faterion brys i'w hystyried cyn i'r pecyn gael ei gwblhau<br>13. Adolygu anghytundebau<br>14. Mae angen deall y cynnydd mewn cyfeiriadau MARAC - mae angen gwell trothwy o ran yr hyn sy'n mynd i MARAC a'r hyn sydd ddim<br>15. Mae angen cyfathrebu ynghylch DASH i rai o dan 16 oed pan nad oes angen un<br>16. Mae angen i ansawdd DASH gyfrannu at storfa ganolog - dysgu'r gwersi ac ar Unedau Gorchymyn Sylfaenol<br>17. A all y Tîm Archwilio Troseddau anfon gwelliannau y maent yn eu gweld mewn perthynas â manylion plant, arfau tanio ac yn y blaen<br>18. Gwirio problem dioddefwyr eildro - y llyfrynnau ddim cael eu diweddaru - mae angen i swyddogion gysylltu â'r Biwro Cofnodi Troseddau i'w diweddaru.<br>19. Mae angen cyfathrebu â swyddogion ynghylch gwirio cwestiynau ynglŷn â'r arestio, y camau priodol er mwyn lliniaru risg ac ati, cyn gadael y safle.<br>20. Ystyried ailalino'r cyfarfodydd perfformiad er mwyn sicrhau bod Cam-drin Domestig yn cael sylw<br>21. Mae angen cyfathrebu ynghylch pwrpas a phwysigrwydd swyddogion yn gorfod cwblhau'r DASH<br>22. Angen Sicrhau Ansawdd yr Asesiadau Risg<br>23. Mae angen gwirio am ddata coll a diffodd yr anfon awtomatig, fel bod rhaid gwasgu botwm er mwyn rhannu gwybodaeth | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | 24. Bwrdd Rhanbarthol y Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol i godi'r mater o rannu gwybodaeth rhwng gwahanol awdurdodau lleol<br>25. Gwirio i weld beth sy'n cael ei anfon allan gan y system ynglŷn ag oedolion/dibynyddion bregus<br>26. Gwirio bod y maes Beichiogrwydd yn cael ei rannu<br>27. Cofrestrydd Troseddau'r Llu i sicrhau nad yw dibynyddion sy'n oedolion yn cael eu tynnu o'r adran dibynyddion<br>28. Egluro'r nifer cyfartalog sy'n mynd at MARAC a'r gost gyfartalog<br>29. Cofrestrydd Troseddau'r Llu/Archwilio Troseddau i eistedd gyda'r Ddesg er mwyn Sicrhau Ansawdd<br>30. Sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i roi trefn ar swyddogaethau'r ddesg - Pencampwyr Cam-drin Domestig, desg i addasu swyddogaethau. | |
| Gweithdy llwybr y dioddefwr troseddau rhyw (oedolion) | Y Prif Arolygydd gyda phortffolio a Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu. | Gorffennaf 2019 | 1. Safleoedd SARC y dyfodol yn cael eu nodi drwy brosiect rhanbarthol - Aberystwyth, Abertawe, Caerdydd. Codwyd pryderon ynghylch colli darpariaeth yng Nghaerfyrddin lle mae darpariaeth Damweiniau ac Achosion Brys 24 awr yn agos i SARC. Sut fydd hyn yn gweithio yn Aberystwyth? I'w ystyried yng nghyfarfod y Bwrdd Prosiect Rhanbarthol<br>2. Bydd pob dioddefwr yn cael ei gyfweld gan Dditectif Gwnstabl sydd wedi derbyn hyfforddiant PIP2 (newid gan Y Coleg Plismona). Rôl Swyddogion Hyfforddedig mewn Troseddau Rhyw (SOTO) wedi newid. Bydd adolygiad o'r galw am Swyddogion Hyfforddedig mewn Troseddau Rhyw a'u nifer yn cael ei gynnal<br>3. Dylid egluro rolau pawb sy'n gysylltiedig (SOTO, Gweithiwr Argyfwng, Cynghorydd Trais Rhywiol Annibynnol, Goleudy, Gwasanaeth Tystion Cyngor ar Bopeth) yn glir mewn mewnbynnau hyfforddiant, yn enwedig hyfforddiant yr Adran Ymchwilio i Droseddau. Dylid hefyd cael eglurder ynghylch y ddarpariaeth er | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | mwyn galluogi swyddogion i reoli digwyddiadau dioddefwyr e.e. Disgwyl aros am wasanaethau cwnsela<br>4. Mae darpariaeth y rhan Iechyd o'r archwiliad wedi cael sylw ar lefel ranbarthol. Os bydd materion penodol yn codi'n lleol yn y cyfamser, dylid eu codi drwy'r grŵp Trais a Throseddau Rhyw Difrifol.<br>5. New Pathways i ystyried y polisi gweithio unigol a'r effaith y mae hyn yn ei gael. Mae gwaith eisoes yn cael ei ddatblygu drwy bractisau meddygon teulu ac ati er mwyn cyflawni mwy o leoliadau allgymorth.<br>6. Goleudy i gefnogi teuluoedd dioddefwyr ifanc, ond mae'n rhaid i blant ac oedolion sy'n dioddef o ganlyniad i drosedd rhywiol gael eu cefnogi gan New Pathways yn unig.<br>7. System TG Goleudy i ddiweddaru'r System Rheoli Troseddau'n awtomatig i ddweud bod Goleudy wedi cael cyswllt (cofnod bod cyswllt wedi'i wneud, ond dim manylion y drafodaeth) - Goleudy i drafod gydag IS&T. I'w nodi â llaw yn y cyfamser<br>8. Angen delio â materion cyfreithiol - ni fydd yn caniatáu i fanylion dioddefwyr gael eu hanfon yn uniongyrchol at New Pathways ar hyn o bryd.<br>9. Dryswch ynghylch pwy fydd yn darparu pa gyswllt, a pha mor aml<br>10. Swyddog yr Achos i nodi'n glir yng nghytundeb y dioddefwr pa wybodaeth/pa mor aml y bydd yn cael ei ddarparu, ac egluro pa gyswllt a chymorth a ddarperir gan New Pathways.<br>11. Cyfathrebu â phob swyddog ynghylch contract y dioddefwr a rheoli disgwyliadau<br>12. Yn sgil y newidiadau uchod, bydd angen adolygu a diweddaru polisi'r Llu | |